------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel**

**a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 17 Gorffennaf 2025

Amser: 09.30


I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Robert Donovan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddEconomi@senedd.cymru


# Hybrid

## Rhag-gyfarfod preifat

09.15 - 09.30

## Sesiwn gyhoeddus

09.30 - 12.50

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

09.30

## 2 Craffu Cyffredinol ar Waith y Gweinidog: Materion Gwledig

09.30 - 10.30 (Tudalennau 1 - 30)

Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru

Gian Marco Currado, Cyfarwyddwr Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru

Richard Irvine, Prif Swyddog Milfeddygol, Llywodraeth Cymru

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

Papur tystiolaeth ar Faterion Gwledig - Llywodraeth Cymru

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Egwyl**

10.30 - 10.35

## 3 Craffu Cyffredinol ar Waith y Gweinidog: Masnach a Ffiniau

10.35 - 11.20 (Tudalennau 31 - 60)

Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru
Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, Llywodraeth Cymru
Emily Hole, Pennaeth Polisi Masnach, Llywodraeth Cymru
Helen John, Dirprwy Gyfarwyddwr y Rhaglen Rheolaethau Ffiniau, Llywodraeth Cymru
Richard Irvine, Prif Swyddog Milfeddygol, Llywodraeth Cymru

**Dogfennau atodol:**
Briff Ymchwil
Papur tystiolaeth ar Fasnach Ryngwladol a Rheolaethau Ffiniau - Llywodraeth Cymru

**Egwyl**

11.20 - 11.30

## 4 Craffu Cyffredinol ar Waith y Gweinidog: Yr Economi a Sgiliau

11.30 - 12.50 (Tudalennau 61 - 106)

Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, Llywodraeth Cymru
Jack Sargeant AS, y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol, Llywodraeth Cymru

Jo Salway, Cyfarwyddwr Partneriaeth Gymdeithasol, Cyflogadwyedd a Gwaith Teg, Llywodraeth Cymru

Liz Lalley, Cyfarwyddwr - Strategaeth Economaidd a Thyfu Gwyrdd, Llywodraeth Cymru

Duncan Hamer, Cyfarwyddwr Gweithrediadau - Busnes a Rhanbarthau, Llywodraeth Cymru

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

Papur tystiolaeth ar yr Economi - Llywodraeth Cymru

Papur tystiolaeth ar Sgiliau - Llywodraeth Cymru

## 5 Papurau i'w nodi

12.50

### 5.1 Deallusrwydd Artiffisial ac Economi Cymru

(Tudalennau 107 - 115)

**Dogfennau atodol:**

Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor, 'Deallusrwydd Artiffisial ac Economi Cymru:  A all androidau Cymru freuddwydio am ddefaid trydan? - 3 Gorffennaf 2025

### 5.2 Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Cludo) (Diwygio) 2025 - Dal a Thrin Dofednod

(Tudalen 116)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig - 4 Gorffennaf 2025

### 5.3 Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

(Tudalen 117)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad – 7 Gorffennaf 2025

**5.4 Bargeinion Dinesig a Thwf: Tirlun Cymorth Busnes – Dilyniant i gyfarfod y pwyllgor a gynhaliwyd ar 4 Mehefin 2025:**

(Tudalennau 118 – 119)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Arweinwyr Cynghorau Sir Ceredigion a Phowys fel Cyd-gadeiryddion Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru – 7 Gorffennaf 2025

**5.5 Ymgynghoriad: Adolygu Effeithiolrwydd Pwyllgorau yn y Chweched Senedd**

(Tudalen 120)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd Fforwm y Cadeiryddion at Gadeiryddion Pwyllgorau – 8 Gorffennaf 2025

**5.6 Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiwylliant a'r Diwydiannau Creadigol**

(Tudalen 121)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad – 9 Gorffennaf 2025

**5.7 Gwaith dilynol i gyfarfod y Pwyllgor ar 15 Mai: – Rheoliadau Adnoddau Dwr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021**

(Tudalennau 122 – 123)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig – 9 Gorffennaf 2025

**5.8 Difrod a Chau Porthladd Caergybi yn Dilyn Storm: Canfyddiadau cychwynnol**

(Tudalen 124)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru – 10 Gorffennaf 2025

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

12.50

## Sesiwn breifat

12.50 – 14.05

## 7 Gwaith craffu cyffredinol ar waith y Gweinidogion: Trafod y dystiolaeth

12.50 – 13.05

## 8 Trafod yr adroddiad monitro masnach

13.05 – 13.15 (Tudalennau 125 – 133)

**Dogfennau atodol:**

Adroddiad monitro masnach (Saesneg yn unig)

## 9 Adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE: Trafod yr adroddiad drafft

13.15 – 13.25 (Tudalennau 134 – 243)

**Dogfennau atodol:**

Adroddiad drafft (Saesneg yn unig)

## 10 Iechyd y Pridd mewn Amaethyddiaeth: Trafod materion allweddol

13.25 – 13.45 (Tudalennau 244 – 255)

**Dogfennau atodol:**

Papur materion allweddol (Saesneg yn unig)

## 11 Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Cŵn (Diogelu Da Byw) (Diwygio) (2024 – 2025) Trafod yr adroddiad drafft

13:45–13:50 (Tudalennau 256 – 261)

**Dogfennau atodol:**

Adroddiad drafft (Saesneg yn unig)

## 12 Trafod y Flaenraglen Waith

13:50–14:05

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Papur tystiolaeth ar gyfer y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ar gyfer Craffu Cyffredinol ar Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Gwybodaeth a ddarparwyd i helpu'r Pwyllgor cyn i'r Gweinidog fod yn bresennol ar gyfer Gwaith Craffu Cyffredinol ar 17 Gorffennaf.

# Cynnwys

**1. Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy gan gynnwys dadansoddiad economaidd ac asesiad effaith, cyfraddau talu a'r gyllideb ................. 3**

**2. Y Strategaeth Bwyd Cymunedol ........................................................... 5**

**3. Y Tafod Glas ........................................................................................... 6**

**4. TB Gwartheg ........................................................................................... 7**

**5. Canlyniadau'r ymgynghoriad ar drwyddedu sefydliadau lles, gweithgareddau ac arddangosfeydd anifeiliaid ....................................... 8**

**6. Pysgodfeydd ............................................................................................ 9**

**7. Adolygiad o'r rheoliadau llygredd amaethyddol ................................ 11**

# 1. Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy gan gynnwys dadansoddiad economaidd ac asesiad effaith, cyfraddau talu a'r gyllideb

Mae ffermio yn hanfodol i Gymru; i'n diwylliant ac i'n heconomi, ac rydym yn benderfynol o sicrhau dyfodol llwyddiannus a chynaliadwy ar gyfer ffermio yng Nghymru. Mae ffermio'n cyfrannu at lawer mwy na dim ond y bwyd rydym yn ei fwyta. Mae'n hanfodol bod gennym ddiwydiant llewyrchus sy'n cefnogi ffermwyr i gynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy ac i sicrhau toreth o fanteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.

Nid yw ein huchelgais ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) i gefnogi diwydiant amaethyddol cynaliadwy a chynhyrchiol yng Nghymru wedi newid. Bydd ein cymorth ar gyfer ffermydd yn y dyfodol yn sicrhau canlyniadau lluosog ar gyfer Cymru gyfan, a byddwn yn sicrhau bod ffermwyr yn ganolog i'r cymorth hwnnw.

Yr SFS fydd prif ffynhonnell cymorth y Llywodraeth ar gyfer ffermwyr yng Nghymru. Bydd y Cynllun yn gwobrwyo ffermwyr am weithredu yn unol ag amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) a nodir yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 ('y Ddeddf Amaethyddiaeth').

Maent fel a ganlyn:

- Cynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy
- Lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo
- Cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision maent yn eu darparu
- Gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hybu cyfleoedd y cyhoedd i'w defnyddio ac ymgysylltu â nhw, a chynnal y Gymraeg a hybu a hwyluso'r defnydd ohoni.

Ers cyhoeddi Amlinelliad o'r Cynllun ar 25 Tachwedd 2024, rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda'r undebau ffermio, cyrff amgylcheddol a rhanddeiliaid pwysig eraill drwy Ford Gron Weinidogol yr SFS a'i weithgorau i sicrhau bod y Cynllun yn hygyrch ac yn ymarferol, gan roi cyfle am gymorth i bob fferm yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys gwaith y Panel Tystiolaeth Atafaelu Carbon a gyhoeddodd ei adroddiad llawn ar 30 Ebrill 2025.

Yn unol â'r uchelgeisiau gwreiddiol, dyluniwyd yr SFS i gefnogi ffermwyr i gynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy, lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo, a chynnal a gwella natur ar eu fferm. Bydd y Cynllun yn cefnogi pob ffermwr yng Nghymru drwy Ddaliad Cyffredinol, yn seiliedig ar gwblhau set o Weithredoedd Cyffredinol a gwerth cymdeithasol i gynrychioli'r manteision ehangach i'r amgylchedd a'r gymdeithas y mae cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy yn ei ddarparu.

Bwriad y Taliad Cyffredinol yw darparu lefel o sicrwydd a sefydlogrwydd i ffermwyr lle maent yn gwybod faint o incwm y gallant ei ddisgwyl bob blwyddyn. Bydd cyfle i wella hyn drwy daliadau ar gyfer Gweithredoedd Opsiynol a Gweithredoedd Cydweithredol,

gan gefnogi ffermwyr i ymgymryd â gweithredoedd mwy uchelgeisiol a chymhleth a gwobrwyo'r rhai sydd eisoes yn cyflawni gweithredoedd o'r fath. Bydd y cymorth hwn yn gyfuniad o grantiau cyfalaf a refeniw, ynghyd â chyngor, arweiniad a rhannu gwybodaeth.

Mae datblygiad yr SFS wedi mynd rhagddo'n dda a byddaf yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Senedd ar ddatblygiad y Cynllun yn y dyfodol agos. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr ymroddiad a gwaith caled pawb sydd wedi cyfrannu at y gwaith hyd yn hyn. Rydym yn cydnabod yn llwyr arwyddocâd y cydweithredu hwn a'i effaith ar wytnwch ein diwydiant ffermio a llesiant ein ffermwyr.

# 2. Y Strategaeth Bwyd Cymunedol

Roedd yn bleser gennyf gyflwyno Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru ar 29 Ebrill 2025 i annog cynhyrchu a chyflenwi bwyd lleol ledled Cymru.

Hoffwn estyn fy niolch, unwaith eto, i'r nifer o randdeiliaid a phartneriaid cyflenwi sy'n gysylltiedig â bwyd cymunedol am eu cyfraniad.

Bydd cyflawni'r Strategaeth Bwyd Cymunedol yn allweddol. Y cam nesaf yw sefydlu Grŵp Cynghori Gweinidogol i ddod â'r partneriaid allweddol at ei gilydd i sicrhau bod mwy o bobl yng Nghymru yn mwynhau bwyd o ffynonellau lleol. Bydd yn arwain a monitro'r Strategaeth Bwyd Cymunedol a'i heffaith, a rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ar yr hyn fydd yn gweithio orau yn ymarferol. Bydd yn sicrhau bod ein dulliau yn gyson ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol i wneud yn siŵr bod y strategaeth yn parhau i fod wedi'i thargedu ac yn berthnasol.

Bydd y Strategaeth Bwyd Cymunedol yn helpu i gryfhau systemau bwyd lleol, gwella bwyta'n iach, a chreu cymunedau mwy cynaliadwy ledled Cymru ac mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo dros £2 filiwn yn 2025-26 i gefnogi Partneriaethau Bwyd Lleol fel rhan o'r gwaith cyflawni.

Ers 2022, mae'r partneriaethau hyn wedi ehangu i gynnwys pob awdurdod lleol yng Nghymru, cydgysylltu systemau bwyd lleol, mynd i'r afael â thlodi bwyd, gwella iechyd y cyhoedd, a chefnogi twf gwyrdd ac addysg.

Gan adeiladu ar dros £26 miliwn o gyllid sy'n gysylltiedig yn benodol â'r agenda i fynd i'r afael â thlodi, mae'r Strategaeth Bwyd Cymunedol yn integreiddio â Pwysau Iach: Cymru Iach a Strategaeth Tlodi Plant 2024 i sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad at fwyd iach.

Mae'r Strategaeth Bwyd Cymunedol wedi'i seilio ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a strategaeth 'Cymru Can', sy'n cefnogi amcanion y llywodraeth ar gyfer llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.

Mae Fforwm Bwyd Traws-Bortffolio Llywodraeth Cymru yn cynnwys uwch-lunwyr polisi mewnol sy'n gysylltiedig â chyflenwi bwyd cymunedol. Mae ystod eang o bortffolios Gweinidogol yn gysylltiedig â bwyd ac mae'r meysydd hyn wedi cyfrannu at y Strategaeth Bwyd Cymunedol. Maent yn cynnwys Amaethyddiaeth, yr Economi Gylchol, Addysg, Bwyd mewn Ysgolion, Iechyd, yr Economi Sylfaenol, Gwaith Teg, Tir, Llywodraeth Leol, Sgiliau a Threchu Tlodi.

# 3. Y Tafod Glas

Y Tafod Glas (BTV-3) - Cyhoeddwyd Datganiad Ysgrifenedig ym mis Mehefin ar Bolisi Rheoli Firws y Tafod Glas mewn ymateb i'r Parth dan Gyfyngiadau ledled Lloegr a ddaeth i rym o 1 Gorffennaf. Gwnaeth y Dirprwy Brif Weinidog Ddatganiad Llafar hefyd ar 17 Mehefin. Mae'r rhain yn nodi ei benderfyniad, sef prynu amser i ffermwyr drwy ceisio dal y clefyd yn ôl o Gymru cyn hired â phosibl. Mae hon yn sefyllfa ddeinamig ac yn ddarlun sy'n esblygu o'r clefyd ledled Prydain Fawr. Mae'r polisi yn cael ei adolygu'n rheolaidd yn amodol ar dystiolaeth ar lawr gwlad, ac mewn partneriaeth â'r sectorau da byw a milfeddygol.

Cyhoeddwyd Hysbysiad i'r Wasg ddydd Gwener 20 Mehefin sy'n darparu rhagor o wybodaeth am y mesurau sydd ar waith mewn ymateb i Barth dan Gyfyngiadau'r Tafod Glas ledled Lloegr, ochr yn ochr â'r canllawiau cysylltiedig i ffermwyr a milfeddygon.

Ers 20 Mehefin, caniatawyd i dda byw symud o'r Parth dan Gyfyngiadau presennol yn Lloegr i fyw yng Nghymru, yn amodol ar gael trwydded i symud a phrawf cyn symud negyddol y telir amdano gan y ceidwad. Ar ben hynny, mae hyn yn caniatáu i ffermwyr ddod o hyd i anifeiliaid sy'n hanfodol i fusnesau fel amnewidiadau i fuchesi a heidiau. Gall symudiadau uniongyrchol i'w lladd barhau ac nid oes angen prawf cyn symud ar gyfer symud y da byw hyn.

Mae gwartheg sydd wedi cwblhau'r gofynion triniaeth lawn gyda brechlyn Boehringer 'Bultavo-3' ac nad oes ganddynt unrhyw arwyddion clinigol o salwch yn gallu symud o Barth dan Gyfyngiadau i Gymru i fyw o dan drwydded a heb brawf cyn symud. Mae trefniadau hefyd ar waith i ganiatáu i dda byw symud i ac o sioeau a gwerthiannau yn y Parth dan Gyfyngiadau presennol, yn amodol ar drwyddedau a naill ai profion cyn symud neu ar ôl symud fel y bo'n briodol. Mae'r polisïau hyn yn dal i fod yn gymwys ar ôl 1 Gorffennaf.

Mae cytundeb mai brechu yw'r ffordd orau o ddiogelu heidiau a buchesi rhag y Tafod Glas. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i annog ffermwyr i ystyried brechu gyda'u milfeddygon, i fod yn wyliadwrus ac i roi gwybod am unrhyw achosion a amheuir.

# 4. TB Gwartheg

Ym mis Mai, gwnaeth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ddatganiad llafar yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen Dileu TB yng Nghymru. Roedd y Datganiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa'r clefyd yng Nghymru a gwaith Bwrdd y Rhaglen Dileu TB a'r Grŵp Cynghori Technegol TB, nawr bod y trefniadau llywodraethu ar waith yn llawn.

Roedd y Datganiad Llafar hefyd yn myfyrio ar y newidiadau i'r trefniadau lladd ar y fferm, a oedd yn un o argymhellion y Grŵp Cynghori. O ganlyniad i'r newidiadau a wnaed, yn y 12 mis cyntaf, roedd angen lladd 242 yn llai o wartheg ar y fferm. Mae hyn yn ostyngiad o tua 25% o anifeiliaid, o 111 o fuchesi unigol. Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo mewn partneriaeth â'r diwydiant i nodi ffyrdd o leihau ymhellach nifer y gwartheg y mae angen eu lladd ar y fferm. Cyhoeddodd y Dirprwy Brif Weinidog hefyd newidiadau sydd ar ddod i bolisi Adweithyddion Amhendant, i adlewyrchu'r risg o glefyd cynyddol o Adweithyddion Amhendant safonol sydd wedi'u datrys. Disgwylir y byddant yn dod i rym o hydref 2025.

Mae Bwrdd y Rhaglen a'r Grŵp Cynghori Technegol TB yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd. Yn fwyaf diweddar, mae'r Grŵp Cynghori wedi dechrau gweithio i ystyried rôl bywyd gwyllt mewn perthynas â TB gwartheg. Bydd y cyngor cychwynnol yn cael ei rannu gyda'r Bwrdd yn yr hydref. Mae'r Bwrdd yn parhau i ystyried cyfathrebu ac ymgysylltu â'r diwydiant ffermio.

Mae ystadegau hirdymor TB gwartheg o bob cwr o Gymru yn dangos cynnydd cadarnhaol wrth fynd i'r afael â TB, gyda'r data hirdymor yn dangos tuedd i lawr amlwg yn nifer yr achosion newydd mewn buchesi. Rydyn ni'n cydnabod yn llawn bod y sefyllfa o ran TB yn amrywio ar draws gwahanol rannau o Gymru, a dyna pam rydyn ni'n targedu ein dull gweithredu.

Er ein bod wedi gweld cynnydd yn nifer y gwartheg sy'n cael eu lladd oherwydd TB yn y cyfnod o 12 mis hyd at fis Mawrth 2025, rydym hefyd wedi gweld cynnydd o 2% yn nifer yr achosion newydd o TB, er bod y duedd hirdymor yn dal i ddangos bod cyfradd yr achosion yn gostwng. Mae'r Tîm Epidemioleg TB yn ymchwilio i'r tueddiadau hyn ar hyn o bryd a bydd y canfyddiadau'n cael eu hystyried i lywio'r camau nesaf.

Mae'r polisi o Statws Heb TB wedi'i Ddiddymu (OTFW) yn awtomatig yng Nghymru, ynghyd â'r defnydd cynyddol o brofion diagnostig mwy sensitif mewn achosion buchesi, yn darparu mwy o hyder bod buchesi sydd wedi cael achos o'r clefyd yn fuchesi heb TB cyn eu bod yn adennill eu statws heb TB a bod masnachu yn ailddechrau. Yn gyffredinol, mae hyn yn lleihau'r risg o fuchesi yn cael eu hailheintio a gwerthu gwartheg heintiedig i fuchesi eraill.

# 5. Canlyniadau'r ymgynghoriad ar drwyddedu sefydliadau lles, gweithgareddau ac arddangosfeydd anifeiliaid

**Model Cenedlaethol ar gyfer rheoleiddio lles anifeiliaid, un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu:** Cyhoeddwyd y Crynodeb o'r Ymatebion i'n hymgynghoriad ar drwyddedu sefydliadau lles, gweithgareddau ac arddangosfeydd anifeiliaid ym mis Rhagfyr. Cyhoeddodd y Dirprwy Brif Weinidog Ddatganiad Ysgrifenedig ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad a'n camau nesaf ar 24 Mehefin.

Byddwn yn mynd ati'n raddol i gyflwyno model cenedlaethol ar gyfer rheoleiddio lles anifeiliaid, gan weithio'n agos gyda rhanddeiliaid, asiantaethau gweithredol, diwydiant a'r trydydd sector. Byddwn yn canolbwyntio ar feysydd lle gall rheoleiddio ddarparu'r budd mwyaf, a chaiff hynny ei lywio gan y dystiolaeth a'r safbwyntiau a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad. Byddwn yn dechrau drwy ddatblygu cynigion ar gyfer rheoleiddio sefydliadau lles anifeiliaid, gan gynnwys canolfannau achub, llochesi, a chanolfannau adsefydlu ac ailgartrefu.

Rydym yn cydnabod yr angen am safonau cyson, cymesur a gorfodadwy, i ddiogelu iechyd a lles anifeiliaid, i gefnogi'r gwaith cadarnhaol a wneir ac i atal camymddwyn a chamdriniaeth.

**Rasio milgwn:** Ym mis Chwefror, gwnaeth y Dirprwy Brif Weinidog ddatganiad llafar yn cyhoeddi bwriad i symud i wahardd rasio milgwn yng Nghymru cyn gynted ag y bo modd. Ym mis Ebrill cyhoeddodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni y bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei chyflwyno yn nhymor y Senedd hon i gyflawni'r ymrwymiad hwn. Mae'r Grŵp Gweithredu i gefnogi'r gwaith hwn yn cael ei sefydlu. Mae gwahoddiadau wedi'u cyhoeddi i ddarpar aelodau i'r Grŵp gael ei sefydlu'n ffurfiol yn yr haf.

# 6. Pysgodfeydd

## Dull Strategol o ymdrin â Physgodfeydd a Dyframaeth Cymru

Yn dilyn cyhoeddi'r **datganiad ysgrifenedig** ar ddull strategol o ymdrin â physgodfeydd a dyframaeth Cymru ym mis Rhagfyr, mae swyddogion Pysgodfeydd wedi bod yn ymgorffori'r dull drwy dargedu ein hadnoddau i ganolbwyntio ar y cyflawniadau allweddol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ailffocysu ein cymorth cyfyngedig o ran gwyddoniaeth a data i gyflawni'r blaenoriaethau hyn. Bydd Cynllun Morol a Physgodfeydd Cymru yn parhau i gael ei ddatblygu gyda rhanddeiliaid a bydd yn cefnogi'r gwaith cyflawni.

Mae ein blaenoriaethau o ran pysgodfeydd a dyframaeth yn canolbwyntio ar gyflawni dulliau rheoli cynaliadwy, a bydd ffocws ar gyflawni Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd a mesurau rheoli addasol. Caiff hyn oll ei gefnogi gan wyddoniaeth a thystiolaeth, a thrafodaethau gyda rhanddeiliaid. Byddwn yn parhau i gyflawni yn unol â'n dyletswyddau statudol ac yn chwilio am gyfleoedd a mentrau i gefnogi'r diwydiant i ddatblygu a thyfu.

Mae adroddiad uchafbwyntiau yn cael ei ddatblygu i olrhain y gwaith cyflawni.

## Ailosod yr UE

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r cyhoeddiadau a wnaed ar 19 Mai yn Uwchgynhadledd y DU-UE ar fasnach, ynni a diogelwch, ac edrychwn ymlaen at weithio gyda Llywodraeth y DU wrth i bethau ddatblygu i sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli'n llawn.

Fel rhan o'r cyhoeddiad, cytunodd y ddwy ochr i weithio tuag at 'Ardal Glanweithdra a Ffytoiechydol Gyffredin' a fydd yn ceisio mynd i'r afael â llawer o'r materion a brofwyd gan ein cynhyrchwyr mewn perthynas â symud cynhyrchion bwyd-amaeth.

O ystyried natur y diwydiant pysgota yng Nghymru, a'i ffocws ar bysgod cregyn, ynghyd â'r ffaith bod dros 70% o'n pysgod sy'n cael eu hallforio i'r UE, mae'n hanfodol sicrhau bod y cytundeb terfynol yn caniatáu i folysgiaid dwygragennog byw o ddyfroedd dosbarth B Cymru gael mynediad i farchnad yr UE unwaith eto. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i wthio am hyn drwy drafodaethau â Llywodraeth y DU ac yn croesawu'r cynnydd cadarnhaol ar y mater hwn yn Uwchgynhadledd yr UE/DU.

Mae ein diwydiant bwyd môr wedi dioddef yn fawr o ganlyniad i Brexit. Rydym yn gobeithio y gallai'r fargen hon gael gwared ar rai o'r rhwystrau y mae ein diwydiant bwyd môr yn eu hwynebu i allforio i'r UE. Bydd cytundeb terfynol sy'n caniatáu i'n cynhyrchwyr o Gymru gael mynediad i farchnad yr UE unwaith eto yn cael ei groesawu.

## Pryderon y diwydiant

Rydym yn gwerthfawrogi'r pryderon ymhlith y diwydiant ynghylch y trefniant mynediad 12 mlynedd, yn enwedig pa effaith y gallai ei gael ar gyflawni'r Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd. Safbwynt Llywodraeth Cymru o hyd yw bod cyflawni'r Cynlluniau Rheoli yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth.

Cronfa Pysgota a Thwf Arfordirol

Rydym yn croesawu'r cyhoeddiad am Gronfa Pysgota a Thwf Arfordirol newydd. Yr hyn sy'n allweddol nawr yw deall y manylion a sicrhau bod diwydiant Cymru yn cael ei gefnogi'n llawn. Ein disgwyliad yw y dylid datganoli'r cyllid hwn yn y ffordd arferol. Rwy'n gwybod bod y diwydiant yng Nghymru am sicrhau bod y gronfa yn un sy'n cael ei gwarantu a bod ganddi ffocws strategol i sicrhau pysgodfeydd cynaliadwy a buddsoddiad yng nghymunedau pysgota Cymru – rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ei gymeradwyo.

Ar 16 Mehefin, ysgrifennodd y Dirprwy Brif Weinidog at y Gweinidog Zeichner AS yn nodi'r blaenoriaethau hyn o ran pysgodfeydd a disgwyliadau Llywodraeth Cymru yn dilyn cyhoeddiad ailosod yr UE.

# 7. Adolygiad o'r rheoliadau llygredd amaethyddol

Mae iechyd ein cyrff dŵr yn hanfodol i bawb yng Nghymru. O fynediad at ddŵr i'w yfed, hamdden a chynhyrchu bwyd, i ecosystemau iach, ffyniannus, mae llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol yn dibynnu'n fawr ar ddŵr glân. Mae ansawdd dŵr yng Nghymru yn dal i ddioddef oherwydd llygredd a rhaid inni barhau i wneud gwelliannau. Er nad dim ond un sector yn unig sy'n achosi llygredd, amaethyddiaeth yw un o'r prif gyfranwyr o hyd.

Mae'r adolygiad annibynnol o'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol wedi penderfynu mai'r dull cyffredinol a roddwyd ar waith gennym i leihau ac atal llygredd amaethyddol yw'r dull cywir. Fodd bynnag, mae'r adolygiad hefyd wedi tynnu sylw at y ffaith bod cwmpas sylweddol i wella'r rheoliadau er budd ffermio a'r amgylchedd. Byddwn yn rhoi’r argymhellion ar waith yn llawn ac yn gyflym.

Mae'r adroddiad yn nodi bod yn rhaid i'r rheoliadau aros yn eu lle fel y maent ar hyn o bryd nes bod argymhellion yn cael eu gweithredu. Mae'r argymhellion ar gyfer camau gweithredu byrdymor, tymor canolig a hirdymor i wella'r rheoliadau. Mae hyn yn adlewyrchu y dylai rhai newidiadau fod yn gymharol gyflym ac yn hawdd eu gwneud, ond bydd angen ystyried materion cymhleth iawn.

Mae'n amlwg o'r trafodaethau a fu gydag ystod eang o gynrychiolwyr ffermio yn ystod yr adolygiad, gan gynnwys y rhai o fewn y gadwyn gyflenwi, ei bod yn cael ei gydnabod yn eang bod llygredd amaethyddol yn risg i'r sector ei hun a bod angen amlwg am welliannau. Un egwyddor allweddol y tu ôl i'r argymhellion yw bod yn rhaid iddynt arwain at well canlyniadau amgylcheddol a gwell canlyniadau i ffermwyr.

Bydd gweithredu'r argymhellion yn arwain at well canlyniadau amgylcheddol ond hefyd yn targedu'n well y rheoliadau lle y mae risg, a thrwy hynny leihau'r baich ar ffermydd sy'n cynnal gweithgareddau risg isel. Byddwn yn newid y rheoliadau i'w gwneud yn fwy hygyrch i ffermwyr. Mae hyn yn allweddol i gyflawni'r canlyniadau yr ydym am eu gweld gan leihau cymhlethdod o ran eu gweithredu.

Mae'r adolygiad wedi nodi bylchau allweddol yn y rheoliadau y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw, gan gynnwys mewn perthynas â phriddoedd a ffosfforws wrth gynllunio rheoli maethynnau. Drwy fynd i'r afael â'r bylchau hyn yn y ffordd gywir, gallwn helpu ffermydd i leihau faint o bridd gwerthfawr sy'n cael ei golli gan ddiogelu'r amgylchedd a gwella dulliau rheoli maethynnau.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Llywodraeth Cymru

# Masnach Ryngwladol a Rheoli Ffiniau

17/07/2025

## Crynodeb

Mae’r cyhoeddiad gan yr Unol Daleithiau ar 2 Ebrill ynghylch tariffau cyfatebol wedi cyfrannu at lefel gynyddol o ansicrwydd mewn marchnadoedd masnach ryngwladol.

Yn y cyd-destun hwn, mae llywodraeth y DU wedi cwblhau nifer o gytundebau gyda gwledydd masnach ryngwladol allweddol, fel y cytundeb masnach rydd y cytunwyd arno gydag India, y cytundeb Ffyniant Economaidd rhwng y DU a’r UDA a Chytundeb Cyd-ddealltwriaeth y DU a’r UE.

Arweiniodd yr Uwchgynhadledd rhwng yr UE a’r DU hefyd at nifer o gyhoeddiadau, gan gynnwys rhagor o drafodaethau i gytuno ar Gytundeb Iechydol a Ffytoiechydol Cyffredin. Os caiff cytundeb o'r fath ei gwblhau, bydd yn effeithio ar ein rhaglen ffiniau.

# Cynnwys


**1. Masnach - Cytundeb Masnach Rydd India ........................................3**

Data Masnach ........................................................................................3

**2. Masnach - Cytundeb Ffyniant Economaidd y DU a'r UDA............4**

Data Masnach ........................................................................................4

**3. Masnach - Cytundeb Cyd-ddealltwriaeth rhwng y DU a'r UE.....6**

Data Masnach ........................................................................................7

**4. Masnach - Trafodaethau â Gweddill y Byd ......................................8**

**5. Masnach - Strategaeth Fasnach y DU..................................................9**

**6. Rheoli Ffiniau - Model Gweithredu Targed y Ffin..........................10**

# 1. Masnach - Cytundeb Masnach Rydd India

1.1 Ar 6 Mai 2025, daeth y Deyrnas Unedig i gytundeb i gwblhau trafodaethau ar gyfer Cytundeb Masnach Rydd newydd gydag India. Disgwylir i'r cytundeb gael ei lofnodi'n fuan. Yna, bydd y cytundeb wedi'i lofnodi yn cael ei gyflwyno gerbron Senedd y DU yn ddiweddarach eleni fel rhan o Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010.[1]

1.2 Gan fod y trafodaethau wedi dod i ben bellach, mae Llywodraeth Cymru'n dadansoddi'r cytundeb a bydd yn cyhoeddi adroddiad yn nodi ein safbwynt ar y cytundeb a'r effeithiau penodol ar Gymru.

## Data Masnach

1.3 Mae perthynas fasnachol gref rhwng Cymru ac India, gydag oddeutu 256 o fusnesau Cymru'n allforio nwyddau i India, a 389 o fusnesau'n mewnforio nwyddau o India yn 2024. Mae hyn yn cyfrif am tua 8.0% o'r 3,188 o fusnesau yng Nghymru a allforiodd nwyddau yn 2024 a 3.3% o'r 11,693 o fusnesau yng Nghymru a fewnforiodd nwyddau.

1.4 Gwerth y nwyddau a fasnachwyd rhwng India a Chymru yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025 oedd £795.1m, ac roedd mewnforion ac allforion yn werth £596.8m a £198.3m yn y drefn honno. Mae hyn yn golygu mai India yw ein 13eg marchnad allforio fwyaf a'r 10fed marchnad fewnforio fwyaf, gyda'r ddau'n cyfrif am 1.3% a 3.0% o'u cyfansymiau perthnasol.

[1] Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010

# 2. Masnach - Cytundeb Ffyniant Economaidd y DU a'r UDA

2.1 Ar 2 Ebrill, cyhoeddodd gweinyddiaeth yr Unol Daleithiau gyfres o dariffau 'cyfatebol' ar bob gwlad. Er y cafodd y lefel uwch o dariffau eu hatal yn ddiweddarach am 90 diwrnod, cyflwynwyd tariff llinell sylfaen o 10% ar gyfer yr holl fewnforion i'r Unol Daleithiau, gan gynnwys o'r DU.

2.2 Mae'r tariffau 'cyfatebol' ar wahân i'r gyfres o dariffau y mae UDA hefyd wedi'u gosod ar nwyddau fel dur, alwminiwm a moduron.

2.3 Ar 8 Mai, cyhoeddodd y DU a'r UDA y telerau cyffredinol ar gyfer Cytundeb Ffyniant Economaidd (EPD) rhwng y DU a'r UDA[2]. Mae'r cytundeb hwn yn nodi'r bwriadau ar gyfer cytundeb masnach yn y dyfodol ac nid yw'n rhwymo mewn cyfraith. Mae rhai elfennau o'r cytundeb wedi'u rhoi ar waith bellach. Er enghraifft, roedd y Cytundeb yn cynnwys ymrwymiadau i gyflwyno cyfradd tariff cwota ar y 100,000 car cyntaf a allforir o'r DU i'r Unol Daleithiau. Mae angen negodi pellach ar elfennau eraill o'r cytundeb i ffurfioli'r manylion penodol a nodir yn y Cytundeb Ffyniant Economaidd. Er enghraifft, cyflwyno cwotâu dur y DU.

2.4 Mae swyddogion Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gyda llywodraeth y DU i ddeall y manylion sy'n weddill ynghylch sut bydd y trefniadau a nodir yn y Cytundeb Ffyniant Economaidd yn cael eu rhoi ar waith mewn unrhyw gytundeb terfynol.

## Data Masnach

2.5 Mae perthynas fasnachol gref rhwng Cymru a'r UDA, gydag oddeutu 1,066 o fusnesau Cymru'n allforio nwyddau yno, a 1,220 o fusnesau'n mewnforio nwyddau o'r UDA yn 2024. Mae hyn yn cyfrif am tua 33.4% o'r 3,188 o fusnesau yng Nghymru a allforiodd nwyddau yn 2024 a 10.4% o'r 11,693 o fusnesau yng Nghymru a fewnforiodd nwyddau yn ystod y cyfnod hwn.

2.6 Mae'r data diweddaraf ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025 yn dangos mai'r UDA oedd ail bartner allforio nwyddau mwyaf Cymru, gyda 13.0% o gyfanswm allforion nwyddau Cymru'n mynd i'r Unol Daleithiau, a phrif bartner mewnforion Cymru, gan gyfrif am tua 19.4% o holl fewnforion nwyddau Cymru.

[2] Cytundeb Ffyniant Economaidd y DU a'r UDA

2.7 Gwerth y nwyddau a fasnachwyd rhwng yr Unol Daleithiau a Chymru yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025 oedd £5.9bn, ac roedd mewnforion ac allforion yn cyfrannu £3.9bn a £2.0bn yn y drefn honno. Mae'r data masnachu gwasanaethau diweddaraf ar gyfer 2022 yn amcangyfrif bod gwerth £3.2bn o wasanaethau'n cael eu masnach â'r Unol Daleithiau.

# 3. Masnach - Cytundeb Cyd-ddealltwriaeth rhwng y DU a'r UE

3.1 Ar 19 Mai, yn yr uwchgynhadledd rhwng y DU a'r UE, cyhoeddodd y DU eu bod wedi cytuno â'r UE ar Gytundeb Cyd-ddealltwriaeth rhwng y DU a'r UE ar fasnach, ynni a diogelwch,[3].

3.2 Cytundeb fframwaith yw'r cytundeb yn bennaf, sy'n nodi meysydd allweddol ar gyfer negodi a chydweithredu pellach fel y maes Iechydol a Ffytoiechydol (SPS), Symudedd Ieuenctid, allforion bwyd-amaeth ac ynni.

3.3 Bydd y DU a'r UE yn dechrau negodi ynghylch manylion y cytundeb cyn bo hir ac mae swyddogion Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda llywodraeth y DU i sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael eu cynrychioli.

3.4 Mae'r ddwy ochr wedi ymrwymo i drafod Ardal Iechydol a Ffytoiechydol Gyffredin i gael gwared ar lawer o'r ardystiadau a'r gwiriadau ar gynhyrchion bwyd-amaeth a gyflwynwyd ar ôl i'r DU adael yr UE ac a greodd rwystrau masnach sylweddol i gynhyrchwyr o Gymru sy'n allforio i'r UE.

3.5 Cytunodd y pleidiau y dylai'r Deyrnas Unedig allu cymryd camau penodol i ddiogelu ei bioddiogelwch ac iechyd y cyhoedd, yn yr un modd ag Aelod-wladwriaethau o dan gyfraith yr Undeb Ewropeaidd.

3.6 Ar ben hynny, dylai'r Cytundeb Iechydol a Ffytoiechydol gynnwys rhestr fer o eithriadau cyfyngedig i aliniad dynamig. Bydd yr eithriadau hyn yn cynnwys meysydd lle mae rheolau a rheoliadau'r DU / Llywodraeth Ddatganoledig yn wahanol i rai'r UE.

3.7 Ar hyn o bryd, mae'r ddwy ochr wrthi'n pennu manylion ymarferol y trafodaethau, gan gynnwys amserlenni. Mae Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru'n ymgysylltu'n rheolaidd â llywodraeth y DU ar y manylion hyn i sicrhau bod cyfle i lywodraeth Cymru lywio sut bydd y DU yn ymdrin â'r trafodaethau a'n bod yn cymryd rhan ystyrlon yn y trafodaethau eu hunain.

3.8 Cynhelir Cyfarfodydd Grŵp Rhyngweinidogol rheolaidd lle trafodir y materion hyn. Cyfarfu'r Grŵp Rhyngweinidogol-Materion Gwledig ddiwethaf ar 23 Mehefin 2025.

[3] UK-EU Summit - Common Understanding (HTML) - GOV.UK

Cyfarfu'r Grŵp Rhyngweinidogol - Masnach ddiwethaf ddydd Llun 2 Mehefin 2025 a chyfarfu'r Grŵp Rhyngweinidogol - yr UE ddiwethaf ddydd Llun 12 Mai 2025. Yn ogystal â hyn, bu sawl cyfarfod Rhyngweinidogol pedairochrog yn ymdrin â rheolaethau Ffiniau, ac roedd y diweddaraf ohonynt ar 9 Mehefin 2025.

3.9 Mae cynnwys molysgiaid dwygragennog byw o ddyfroedd Cymru yng nghwmpas y trafodaethau i gael mynediad i farchnad yr UE unwaith eto yn enghraifft o sut y gellir cynrychioli buddiannau cynhyrchwyr Cymru i elwa ar y cytundeb terfynol.

## Data Masnach

3.10 Yr UE yw partner masnachu mwyaf arwyddocaol Cymru, a masnachwyd gwerth cyfanswm o £17.2bn o nwyddau â'r UE yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025, gyda mewnforion ac allforion yn cyfrannu £7.7bn a £9.5bn yn y drefn honno. Yr UE hefyd yw'r farchnad fwyaf ar gyfer mewnfuddsoddi yng Nghymru.

3.11 Mae Cymru'n dibynnu mwy ar allforion nwyddau i'r UE na'r DU gyfan. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025, aeth tua 62.4% o allforion nwyddau Cymru i'r UE, o'i gymharu â 48.9% ar gyfer y DU. (CThEM)

3.12 Yn 2024, o'r 3,188 o fusnesau a allforiodd nwyddau, roedd tua 79.4% (2,532) o'r rhain yn gwneud hynny i'r UE, ac roedd tua 37.3% o fewnforwyr Cymru'n mewnforio nwyddau o'r UE (4,361 allan o 11,693 o fusnesau).

# 4. Masnach - Trafodaethau â Gweddill y Byd

4.1 Yn ogystal â'r cytundebau diweddar a wnaed gydag India, yr Unol Daleithiau a'r Undeb Ewropeaidd, mae nifer o drafodaethau masnach yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys trafodaethau gyda'r Swistir, De Korea a Chyngor Cydweithredol y Gwlff. Mae llywodraeth y DU hefyd wedi cyhoeddi y bydd trafodaethau'n ailddechrau rhwng y DU a Thwrci.

4.2 Ar 20 Mai, dywedodd llywodraeth y DU wrth y Senedd fod y DU yn atal trafodaethau ar Gytundeb Masnach Rydd ag Israel yn ffurfiol.

# 5. Masnach - Strategaeth Fasnach y DU

5.1 Cyhoeddodd llywodraeth y DU Strategaeth Masnach y DU[4] ar 26 Mehefin 2025. Mae hwn yn amlinellu sut bydd llywodraeth y DU yn mynd ar drywydd ei dull o ymdrin â pholisi masnach a masnach ryngwladol.

5.2 Bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried cynnwys y strategaeth.

[4] Strategaeth Fasnach y DU

# 6. Rheoli Ffiniau - Model Gweithredu Targed y Ffin

6.1 Pan adawodd y DU yr UE, roedd angen sefydlu system newydd o ofynion ar ôl Brexit ar gyfer trefn reoli ffiniau ar fewnforion o'r UE, gan gynnwys mai dim ond drwy bwynt mynediad gyda safle rheolaethau'r ffin (BCP) y gellid mewnforio anifeiliaid byw a nwyddau fel bwydydd.

6.2 Ym mis Awst 2023, cyhoeddwyd Model Gweithredu Targed y Ffin, gan gynnwys cytundeb gan llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru ar drefniadau i ddiogelu ein bioddiogelwch a'n diogelwch bwyd. Mae'r trefniadau hyn yn berthnasol i fewnforion o'r UE a gweddill y byd.

6.3 Yn unol â'r trefniadau hynny, comisiynodd Llywodraeth Cymru'r gwaith o adeiladu Safle Rheolaethau'r Ffin ar ein tir ym Mharc Cybi ym mis Mawrth 2024 i sicrhau y byddai Caergybi - y porthladd fferi prysuraf ar Fôr Iwerddon, gyda dros dri chwarter y mewnforion i Brydain Fawr o Iwerddon - yn gallu parhau i weithredu.

6.4 Dechreuodd gwiriadau ffisegol a gwiriadau adnabod ar fewnforion Iechydol a Ffytoiechydol o'r UE ym mis Ebrill 2024 ar ôl sawl achos o oedi. Fodd bynnag, ni chyhoeddwyd dyddiad dechrau erioed ar gyfer gwiriadau o'r fath ar fewnforion o Iwerddon. Gallai'r cyhoeddiad ar 19 Mai 2025 bod y DU a'r UE yn bwrw ymlaen â thrafodaethau ar gyfer 'Ardal Iechydol a Ffytoiechydol Gyffredin' esemptio llawer o fewnforion anifeiliaid byw a nwyddau rhag gwiriadau iechydol a ffytoiechydol ar y ffin.

6.5 Ar 24 Mehefin 2025, cyhoeddodd y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ddatganiad ysgrifenedig yn cyhoeddi ei benderfyniad terfynol i beidio â bwrw ymlaen â chomisiynu a staffio Safle Rheolaethau'r Ffin Caergybi, ac i beidio â bwrw ymlaen â'r gwaith o adeiladu Safleoedd Rheolaethau'r Ffin yn Abergwaun a Doc Penfro.

6.6 Bydd y penderfyniad hwn yn cael ei adolygu nes bod manylion terfynol y cytundeb gyda'r UE yn hysbys.. Yn y cyfamser, mae'n hanfodol bod y cyfleuster yn parhau i fod yn barod ac ar gael fel cyfleuster Safle Rheolaethau'r Ffin posibl os na lwyddir i wireddu cytundeb gyda'r UE neu os na fydd yn llwyddo i ddileu'r holl ofynion rheoli ffiniau.

6.7 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o hyd i roi digon o rybudd i fasnachwyr a phartneriaid cyflawni os bydd angen cyflwyno unrhyw archwiliadau newydd ar y ffin.

6.8 Mae gan Gymru ddiddordeb cryf mewn cynnal safonau iechydol a ffytoiechydol uchel, ar gyfer iechyd y cyhoedd a pharhad masnach. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio gyda llywodraeth y DU ar y goblygiadau o ran rheolaethau'r ffin tra bod darpariaethau Iechydol a Ffytoiechydol y Cytundeb Cyd-ddealltwriaeth yn cael eu negodi.

6.9 Wrth i'r amserlenni ar gyfer trafodaethau Iechydol a Ffytoiechydol a chamau gweithredu dilynol ddod yn gliriach, gall Llywodraeth Cymru bennu trefniadau bioddiogelwch a diogelwch bwyd priodol yn y cyfamser.

6.10 Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi dileu rhwystrau i fasnach ond rhaid iddi barhau i warchod rhag clefydau a sicrhau bod mesurau ar waith sy'n darparu lefel dderbyniol o warchodaeth bioddiogelwch.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Papur Tystiolaeth Llywodraeth Cymru - Yr Economi

03/07/2025

Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig wedi gwahodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio i sesiwn graffu gyffredinol ar yr Economi ar 17 Gorffennaf 2025. Bwriad y papur hwn yw llywio'r drafodaeth, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau polisi yn y maes hwn, a'r camau mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i dyfu economi Cymru.

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ........ 3**

**2. Economi Cymru ........ 4**

Y Sefyllfa Economaidd Bresennol ........ 4

Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU ........ 4

Y Gronfa Gyfoeth Wladol (NWF) ........ 6

Dur ........ 6

Gweithgareddau yng Nghymru ........ 7

Economi Gylchol ........ 8

Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ........ 10

Gweithgareddau Rhyngwladol ........ 10

Casgliad ........ 11

# 1. Cyflwyniad

**1.** Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau'r Prif Weinidog, gan gynnwys yng nghyswllt swyddi a thwf gwyrdd. Mae hyn yn cyd-fynd â gwaith ar draws y pedwar maes blaenoriaeth cenedlaethol a nodir yn ein Cenhadaeth Economaidd a gyflawnir dros dymor y Llywodraeth hon, gyda'r nod o greu economi ffyniannus a llesiant sy'n adeiladu ar gryfderau a chyfleoedd Cymru, yn lleihau anghydraddoldebau, ac yn lledaenu cyfoeth.

**2.** Rydym yn defnyddio amrywiaeth o ysgogiadau polisi a gweithredol sy'n gysylltiedig â sgiliau, cyllid, cyngor, ymchwil a datblygu, ynni a chynllunio i gefnogi'r gwaith o greu swyddi cynaliadwy, cynhyrchiant a thwf. Er bod ffocws o hyd ar ddarparu a chefnogi ardaloedd daearyddol penodol fel Port Talbot - yn ogystal â gwaith ehangach mewn ardaloedd sy'n cynnwys Porthladdoedd Rhydd a Pharthau Buddsoddi - mae Gweinidogion Cymru wedi cynnal trafodaethau pwysig gyda Llywodraeth y DU am yr agenda twf economaidd yng Nghymru.

**3.** Mae'r trafodaethau hyn yn cynnwys sut gall Llywodraeth Cymru gefnogi ffocws ar draws cyfres o strategaethau, cynlluniau a deddfwriaeth, a nodi lle rydym yn gweld y cryfderau ar y cyd i Gymru. Ar 23 Mehefin, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei Strategaeth Ddiwydiannol. Cafodd hon ei datblygu drwy weithio gyda Llywodraeth Cymru. Rydym wedi darparu tystiolaeth sydd wedi helpu i lunio'r blaenoriaethau i Gymru. Mae'r rhain yn cyd-fynd â'n Cenhadaeth Economaidd, gan gadarnhau dull gweithredu cyffredin ac un lle bydd fy mhortffolio yn chwarae rhan annatod.

# 2. Economi Cymru

## Y Sefyllfa Economaidd Bresennol

**4.** Yr amcangyfrif twf blynyddol diweddaraf o gynhyrchiant llafur yng Nghymru rhwng 2022 a 2023 oedd 1.3%, yr ail uchaf o unrhyw wlad neu ranbarth yn y DU. Roedd cynhyrchiant llafur wedi disgyn 0.2% yn 2023.

**5.** Er ein bod yn croesawu'r gwelliant cymharol mewn cynhyrchiant llafur yng Nghymru yn 2023, yn gyffredinol mae'r ffigurau diweddaraf hyn yn tynnu sylw at anghydbwysedd dwfn yn economi'r DU. Llundain a de-ddwyrain Lloegr sydd â'r cyfraddau cynhyrchiant uchaf o bell ffordd o blith gwledydd a rhanbarthau'r DU.

**6.** Er ei bod yn amlwg bod amodau'r farchnad lafur yn heriol mewn rhannau o'r sector preifat, mae'n galonogol bod twf enillion yn parhau i ragori ar chwyddiant sy'n helpu llawer o aelwydydd ledled Cymru i ymdopi â phwysau costau byw.

**7.** Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2024, roedd y gyfradd ddiweithdra i bobl 16 oed a hŷn yng Nghymru yn 3.2%, sef 0.5 pwynt canran yn is na'r flwyddyn flaenorol. Roedd cyfradd y DU yn 3.8%, a oedd 0.1 pwynt canran yn uwch dros y flwyddyn.

**8.** Yn 2023, roedd 1.3 miliwn o swyddi gweithwyr yng Nghymru, 1.8% yn uwch nag yn 2022 ac yn uwch na'r cynnydd o 1.4% ym Mhrydain Fawr drwyddi draw.

**9.** Roedd incwm gwario gros aelwydydd (GDHI) yng Nghymru yn 2022 yn £58 biliwn, a oedd 4.4% yn uwch na 2021.

## Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU

**10.** Ar 23 Mehefin, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y Strategaeth Ddiwydiannol, sef cynllun 10 mlynedd i gynyddu buddsoddiad busnes yn sylweddol mewn wyth sector sy'n sbarduno twf (IS-8) (Strategaeth Ddiwydiannol Fodern y DU 2025 - GOV.UK).

**11.** Mae ei ffocws a'i fwriad yn ymwneud â'i gwneud yn gyflymach ac yn haws i fusnesau fuddsoddi a darparu'r sicrwydd a'r sefydlogrwydd sydd eu hangen ar gyfer penderfyniadau buddsoddi tymor hir.

**12.** Y sectorau a enwir yw'r rhai sydd â'r potensial mwyaf i dyfu dros y degawd nesaf ac sydd â rôl hollbwysig i'w chwarae o ran cefnogi diogelwch a chadernid

economaidd, sero net a thwf rhanbarthol. Mae gan bob un Gynllun Sector pwrpasol, a ddatblygwyd gyda'r diwydiant, sy'n nodi gweledigaeth o drawsnewid y sector erbyn 2035.

**13.** Yng Nghymru, mae gennym nifer o sectorau twf uchel, fel Gweithgynhyrchu Uwch, Ynni Glân, Digidol a Thechnolegau, Creadigol, Gwyddorau Bywyd a Gwasanaethau Ariannol. Fodd bynnag, gwyddom fod amrywiaeth o is-sectorau y mae modd eu tyfu ochr yn ochr â'i gilydd. Er enghraifft, mae blaenoriaethau'r Prif Weinidog yn dal i ganolbwyntio ar swyddi a sgiliau gwyrdd, lle mae Cymru'n cymryd camau breision i wireddu amryfal gyfleoedd. Mae hyn yn cynnwys ynni gwynt ar y môr, ynni gwynt ar y tir, niwclear, dal carbon, ffrwd lanw a hydrogen. Ond gwyddom fod rhwystrau sy'n ymwneud â materion fel capasiti'r grid, cynllunio a chyllid sy'n llesteirio'r raddfa a pha mor gyflym y gallwn symud. Rydym yn awyddus i weithio gyda Llywodraeth y DU yn ddi-oed i ddatgloi'r potensial hwn.

**14.** Mae'r Sectorau Clwstwr a nodir uchod eisoes yn cyd-fynd â phedwar clwstwr posibl sy'n seiliedig ar leoedd, sy'n cynnwys y Môr Celtaidd, gan ganolbwyntio ar Bort Talbot ac Aberdaugleddau, Coridor y de-ddwyrain, Coridor y gogledd-ddwyrain ac Ynys Môn. Y newyddion da yw bod gan yr ardaloedd hyn eisoes sylfaen gref ar gyfer twf. Rydym eisoes yn darparu rhaglenni ar y cyd yng Nghymru a'r DU, gan gynnwys ar draws bargeinion Dinesig a Thwf, Porthladdoedd Rhydd a datblygiad parhaus Parthau Buddsoddi. Ond mae nifer o raglenni Llywodraeth Cymru hefyd ar draws cymorth busnes a sgiliau sy'n gallu parhau i sbarduno ecosystem arloesol. Mae ein safbwynt yn dal yn gryf o ran yr ymrwymiad i ddur gwyrdd, ei gysylltiad ag ynni adnewyddadwy ac, yn benodol, gwynt ar y môr. Mae gennym bresenoldeb sylweddol hefyd ym maes adeiladu ac yn benodol concrit a phren, sydd ill dau'n hanfodol ar gyfer prosiectau seilwaith. Bydd angen i ni wthio'n galed ar fynediad at safleoedd sydd â grid ac ynni, sy'n rhwystro ymdrechion o ran twf, yn enwedig ynni glân a darpariaeth ddigidol.

**15.** Mae pump o'r wyth Cynllun Sector wedi cael eu cyhoeddi hyd yma, a bydd Gwyddorau Bywyd, Amddiffyn a Gwasanaethau Ariannol yn dilyn. Rwyf wedi gofyn i'r gweithredu fynd rhagddo'n gyflym felly dros yr wythnosau nesaf byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i ystyried manylion penodol y strategaeth ac i ddeall y camau nesaf o ran cyflawni a pharhau i gydweithio. Rhaid i'r ddarpariaeth gael ei hangori yn ein partneriaethau rhanbarthol, a byddwn yn gweithio ochr yn ochr ag Awdurdodau Lleol a phartneriaid eraill i barhau i sbarduno twf economaidd drwy Gyd-bwyllgorau Corfforedig.

## Y Gronfa Gyfoeth Wladol (NWF)

**16.** Un ffordd ddifrifol o ysgogi cenhadaeth twf glân Llywodraeth y DU yw drwy'r Gronfa Gyfoeth Wladol (NWF). Mae'n adlewyrchu uchelgais glir a chredadwy i sbarduno twf economaidd, cefnogi'r gwaith o greu swyddi medrus ym maes ynni adnewyddadwy, a chyflymu'r broses o drawsnewid i economi carbon isel.

**17.** Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Gronfa Gyfoeth Wladol ddatganiad o fwriad newydd (Financing the Future, a statement of intent by the National Wealth Fund) sy'n nodi sut mae'r Gronfa yn ymateb i'r Datganiad o Flaenoriaethau Strategol (https://www.gov.uk/government/publications/statement-of-strategic-priorities-to-the-national-wealth-fund) i gefnogi Strategaeth Ddiwydiannol a Strategaeth Seilwaith 10 mlynedd y Llywodraeth, a'i Chynllun Gweithredu Pŵer Glân 2030.

**18.** Cyhoeddwyd y datganiad ar 17 Mehefin, ac mae'n amlinellu ei rôl ehangach a'i fandad i gynnwys:

- Sylfaen driphlyg - cyflawni'r cenadaethau twf ac ynni glân, mewnwthio cyfalaf preifat sylweddol a chynhyrchu elw i'r trethdalwr.
- Caniatáu buddsoddiad mewn marchnadoedd dechreuol a thechnolegau cyfnod cynharach.
- Parheir i ddarparu Gwasanaethau Cynghori Awdurdodau Lleol am ddim.
- Benthyciadau Awdurdodau Lleol o £4bn i helpu i gyflawni prosiectau cyfalaf-ddwys.
- Cymorth Datblygu Prosiect cynnar gyda 4 Partneriaeth Strategol y Gronfa Gyfoeth Wladol.

**19.** Rwyf wedi cwrdd â Chadeirydd y Gronfa ac wedi canfod ei fod yn ymwneud yn llawn â Chymru, ei chryfderau a'i photensial. Rwy'n deall y byddant, cyn datblygu eu cynllun strategol, yn profi'r dull gyda llywodraethau datganoledig a rhanddeiliaid i ddeall sut a ble y gallant gefnogi sectorau orau. Bu ymgysylltu cadarnhaol â Banc Datblygu Cymru, lle mae cyfleoedd i ystyried buddsoddiadau sy'n cyd-fynd ac sy'n strategol.

## Dur

**20.** Er mwyn cystadlu'n deg yn rhyngwladol, mae'r sector dur yng Nghymru a'r DU yn awyddus i weld strwythur prisio trydan gwirioneddol gystadleuol, mwy o

ysgogiadau i ddefnyddio dur y DU drwy gaffael cyhoeddus, ac atebion masnach cadarn.

**21.** Roedd y sector dur yn croesawu cynnwys cynnydd yn Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU i'r Iawndal Codi Tâl Rhwydwaith, o 60% i 90% yn 2026. Mae'r cynllun yn digolledu'r diwydiant dur am y trethi carbon a delir drwy filiau trydan.

**22.** Mae Llywodraeth Cymru yn mynychu Cyngor Dur y DU Llywodraeth y DU, a gafodd ei ailsefydlu i gynghori'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes a Masnach a'r Gweinidog dros Ddiwydiant ar amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â datblygu a chyflawni Strategaeth Ddur y DU, a gyhoeddir yn nes ymlaen yn yr haf. Mae'r Strategaeth Ddur yn ddarn pwysig o waith sy'n ymchwilio i'r materion polisi y mae ein sector dur domestig yn parhau i'w hwynebu, yn ogystal ag ymchwilio i'r cyfleoedd gorau ar gyfer buddsoddiad cyfalaf. Mae angen i ni ddeall marchnadoedd dur yn y dyfodol fel ffermydd gwynt arnofiol ar y môr, a'r galw am ddur yn y dyfodol. Hoffem i'r strategaeth hefyd gryfhau rôl ymchwil, datblygu ac arloesi drwy ein prifysgolion dur, sydd wedi hen ennill eu plwyf.

**23.** Ar 26 Mehefin, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Hysbysiad Caffael Cyhoeddus newydd i gaffaelwyr yn y sector cyhoeddus ymgynghori â chatalog digidol UK Steel ac ystyried a yw'r eithriadau diogelwch gwladol yn Neddf Caffael 2023 yn berthnasol i'r broses gaffael sy'n cael ei chynnal. Fel mater datganoledig, mae swyddogion yn ystyried a oes modd mabwysiadu neu addasu hyn i fod yn berthnasol i gaffael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

**24.** Hefyd, ar 26 Mehefin cyhoeddodd Llywodraeth y DU Strategaeth Fasnach y DU sy'n datgan y bydd Llywodraeth y DU yn ceisio cyflwyno deddfwriaeth i addasu canllawiau polisi a fframwaith gweithredu'r Awdurdod Rhwymedïau Masnach, gan ei alluogi i fabwysiadu dull gweithredu mwy pendant ar faterion fel mewnforion o wledydd sydd wedi ystumio'r farchnad yn annheg. Mae sector dur y DU wedi croesawu'r strategaeth, gan gydnabod y bydd yn darparu amddiffyniadau masnach cadarn i'r sector.

## Gweithgareddau yng Nghymru

**25.** Yma yng Nghymru, mae gennym nifer o fentrau sydd wedi'u cynllunio i ddarparu cymorth i fusnesau, fel:

- Busnes Cymru - sy'n cynnig un pwynt cyswllt i fusnesau ac entrepreneuriaid gael gwybodaeth, cyngor a chymorth i fusnesau gan y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.
- Banc Datblygu Cymru - sy'n cynnig mynediad at gyllid i fusnesau bach a chanolig, sy'n amrywio o fenthyciadau i fuddsoddiad ecwiti.

**26.** Er mwyn rhoi rhywfaint o gyd-destun, ers dechrau tymor y Senedd hon, mae Busnes Cymru wedi delio â 185,000 o ymholiadau, sy'n dangos maint yr angen, a'n hymrwymiad i'w ddiwallu. Mae hyn wedi troi'n gymorth uniongyrchol i 28,000 o fusnesau ac entrepreneuriaid. Mae tystiolaeth yn dangos bod cyfraddau goroesi busnesau sy'n ymgysylltu â Busnes Cymru yn gryfach.

**27.** Mae Banc Datblygu Cymru yn parhau i chwarae rhan gynyddol bwysig yn ein strategaeth economaidd. Yn ystod tymor y Senedd hon, mae wedi cefnogi dros 18,800 o swyddi drwy fuddsoddiad o dros £512 miliwn. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau bod gan fusnesau'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i lwyddo ac i barhau i fod â'u gwreiddiau yn eu cymunedau lleol.

**28.** Gan gydnabod pwysigrwydd datblygu economaidd sy'n seiliedig ar leoedd, mae ein timau economi rhanbarthol (gogledd, canolbarth a de-orllewin, de-ddwyrain) yn gweithio gydag amrywiaeth o fuddsoddwyr cynhenid a thramor i gefnogi eu huchelgais ar gyfer twf. Mae gan bob rhanbarth Fframwaith Economaidd Rhanbarthol (https://www.llyw.cymru/fframweithiau-economaidd-rhanbarthol) sy'n nodi blaenoriaethau, cryfderau a heriau rhanbarthol lefel uchel, ac fe'i cynhyrchwyd ar y cyd â phartneriaid a rhanddeiliaid. Mae Busnes Cymru yn gweithio'n agos gyda'n timau arloesi ac economi ranbarthol ac mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a'r ecosystem ehangach.

## Economi Gylchol

**29.** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i symud i economi gylchol yng Nghymru, sy'n osgoi gwastraffu ac sy'n dal i ddefnyddio adnoddau am gyn hired â phosibl.

**30.** Cyhoeddwyd ein strategaeth economi gylchol, Mwy nag Ailgylchu, yn 2021. Mae'n nodi camau allweddol i gyflymu ein trawsnewid i economi gylchol. Ein targed yw bod yn genedl dim gwastraff, carbon sero net erbyn 2050, sy'n defnyddio cyfran deg o adnoddau ein planed.

**31.** Hyd yma, rydym wedi trawsnewid o fod yn genedl a oedd yn ailgylchu llai na 5% o'i gwastraff trefol ac a oedd yn tirlenwi dros 95% yn 1999 i fod bellach yn ailgylchu dros 66% a thirlenwi dim ond 1.6%. Bellach, mae ailgylchu yn rhan o bwy ydym ni fel cenedl.

**32.** Rydym yn bwriadu adeiladu ar y sylfeini cryf hyn drwy gyflymu'r symudiad tuag at economi gylchol yng Nghymru a gwneud Mwy nag Ailgylchu.

Cyfleoedd economaidd

**33.** Ni yw'r ail orau yn y byd am ailgylchu. Mae hyn yn rhywbeth y dylai pawb ym mhob cymuned yng Nghymru fod yn falch ohono, oherwydd mae hyn wedi digwydd diolch i ymdrechion aelwydydd ledled y wlad. Mae hyn yn ein rhoi mewn sefyllfa wych i elwa ar y manteision economaidd o symud i economi gylchol yn ogystal â gwneud ein cadwyni cyflenwi yn fwy gwydn yn wyneb anwadalrwydd byd-eang ac effeithiau'r hinsawdd.

**34.** Mae trawsnewid i economi gylchol yn cynnig cyfleoedd sylweddol i Gymru ddatgloi mwy o werth economaidd o'r deunyddiau rydym yn wych am eu casglu. Mae Cronfa'r Economi Gylchol ar gyfer Busnesau yn rhoi cyllid i fusnesau gymryd camau pwysig fel addasu eu prosesau i ddefnyddio deunydd wedi'i ailgylchu a lleihau'r deunyddiau y mae angen iddynt eu defnyddio. Mae 42 o fusnesau wedi elwa ar y cyllid hwn hyd yma.

**35.** Mae ein cyflenwad o ddeunyddiau eildro o ansawdd uchel hefyd yn helpu i ddenu mewnfuddsoddiad a chreu swyddi yng Nghymru. Yng Nglannau Dyfrdwy, mae’r gwaith o ailddatblygu Melin Shotton wedi denu buddsoddiad o dros £1 biliwn ac wedi diogelu 147 o swyddi. Bydd y safle'n dod yn un o ganolfannau pecynwaith wedi’i ailgylchu mwyaf y DU, gan greu 220 o swyddi eraill. Mae busnesau fel hyn yn gwybod y gallant gael gafael ar ailgylchu o ansawdd da wrth ddod yma, diolch i ymdrechion pobl yng Nghymru. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys sefydlu cyfleuster newydd i echdynnu metelau gwerthfawr a chydrannau y gellir eu hailddefnyddio o wastraff electronig (Y Bathdy Brenhinol), cynhyrchu cynwysyddion o wydr wedi'i ailgylchu (Ciner) a phrosesu plastig i'w ailgylchu (Jayplas).

## Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant

**36.** Mae llywodraethau Cymru a'r DU yn unedig yn y genhadaeth i sicrhau twf economaidd. Dros gyfnod yr Adolygiad o Wariant (2025-26 i 2028-29) mae gennym £6bn ychwanegol o'i gymharu â'r hyn y byddem wedi'i gael o dan Lywodraeth flaenorol y DU. Mae hyn i gyd yn golygu llawer mwy o gyllid i Lywodraeth Cymru i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus a buddsoddi mewn seilwaith, nag yr oedd Llywodraeth flaenorol y DU wedi ymrwymo iddo dros gyfnod yr adolygiad o wariant blaenorol.

**37.** Mae'r cyllid ychwanegol i Lywodraeth Cymru yn adeiladu ar yr £1.6 biliwn yn 2025-26 o Gyllideb Hydref y DU, ac yn ein helpu i ymateb yn well i flaenoriaethau Cymru a sicrhau gwelliannau ar draws ein gwasanaethau cyhoeddus.

**38.** Hefyd, cadarnhaodd yr Adolygiad o Wariant:

- £80m ar gyfer porthladd Port Talbot, gan gydnabod arwyddocâd porthladdoedd yng Nghymru i gefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau gwynt ar y môr. Bydd Port Talbot, sy'n borthladd allweddol, yn darparu'r seilwaith sydd ei angen i gefnogi'r gwaith o ddarparu ffermydd gwynt arnofiol ar y môr.
- Cam olaf cymeradwyo achos busnes y Porthladd Rhydd Celtaidd gan Drysorlys EF - cam allweddol o ran rhyddhau hyd at £25m o gyfalaf sbarduno. Mae'r Porthladd Rhydd Celtaidd yn canolbwyntio ar gefnogi ffermydd gwynt arnofiol ar y môr sy'n dod i'r amlwg a chyfleoedd gweithgynhyrchu a deunyddiau uwch ar gyfer Rhanbarth De-orllewin Lloegr.

## Gweithgareddau Rhyngwladol

**39.** Drwy Gynllun Gweithredu Allforio Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi busnesau ledled Cymru i ddatblygu marchnadoedd allforio presennol a newydd ar gyfer eu cynnyrch a'u gwasanaethau, er mwyn sbarduno twf allforion o Gymru. Mae'r ffocws ar ysbrydoli busnesau i ddechrau allforio; meithrin y gallu i allforio; helpu busnesau i ddod o hyd i gwsmeriaid tramor newydd; a chefnogi busnesau i gyrraedd marchnadoedd tramor. Ers cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Allforio, mae busnesau yng Nghymru wedi sicrhau dros £370m o fusnes allforio newydd o ganlyniad uniongyrchol i gymorth allforio Llywodraeth Cymru.

**40.** Ers cyhoeddi'r Strategaeth Ryngwladol (Ebrill 2020), mae 280 o fuddsoddiadau wedi bod gan gwmnïau tramor sydd wedi creu a diogelu dros

24,000 o swyddi. Yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf (2024-25), cofnodwyd 65 o brosiectau buddsoddi uniongyrchol o dramor, cynnydd o 23% ar y flwyddyn ariannol flaenorol. Dyma'r ail gynnydd uchaf o blith holl wledydd / rhanbarthau'r DU. Arweiniodd hyn at greu 2,470 o swyddi newydd yng Nghymru, cynnydd o 30% o'i gymharu â 2023-24. Unwaith eto, dyma'r cynnydd canrannol uchaf ond un o holl wledydd / rhanbarthau'r DU. Hefyd, diogelwyd 1,652 o swyddi - y nifer uchaf o holl wledydd a rhanbarthau'r DU. Bydd ein Huwchgynhadledd Fuddsoddi yn ddiweddarach eleni yn arddangos Cymru ymhellach fel cyrchfan ragorol i fuddsoddi ynddi.

**41.** Drwy weithio gyda'n timau yng Nghymru a rhwydwaith tramor Llywodraeth y DU, mae ein swyddfeydd tramor mewn marchnadoedd allweddol ledled y byd (UDA, Canada, India, Tsieina, Japan, Ffrainc, yr Almaen, Gwlad Belg, Iwerddon, Dubai) hefyd yn cefnogi uchelgeisiau byd-eang Cymru, gan gynnwys cefnogi busnesau Cymru i allforio a hyrwyddo Cymru fel lle rhagorol i sefydlu busnes.

## Casgliad

**42.** Yn ddiweddar, nodais record Cymru ar gyfer creu swyddi o ansawdd mewn Datganiad Llafar i'r Senedd ar 24 Mehefin.

**43.** Roedd hyn yn dangos yr hyn rydym wedi'i gyflawni, mewn sefyllfaoedd anodd iawn, a sut rydym yn cefnogi busnesau. Rydym nawr yn gweithio gyda Llywodraeth y DU, sy'n gwrando ar anghenion economaidd Cymru ac yn gweithredu arnynt. Fodd bynnag, mae'r llywodraeth hon yn parhau i ganolbwyntio ar effaith hirdymor a sicrhau ein bod yn ymgysylltu â sectorau'r dyfodol fel deallusrwydd artiffisial, gwyddorau bywyd a'r diwydiannau creadigol. Mae ein huchelgais yn glir - adeiladu economi wydn, gynhwysol a chynaliadwy. Rydym wedi ymrwymo o hyd i Gymru lle mae yna swyddi o safon, busnesau cryf a chymunedau ffyniannus.

# Papur Tystiolaeth Llywodraeth Cymru - Sgiliau

03/07/2025

Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig wedi gwahodd y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol i sesiwn graffu gyffredinol ar Sgiliau ar 17 Gorffennaf 2025. Bwriad y papur hwn yw llywio'r drafodaeth, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau polisi yn y maes hwn, a'r camau mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i wella sgiliau ledled Cymru.

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ....... 3**

**2. Polisïau Sgiliau ....... 4**

Sgiliau Sero Net ....... 4

Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ....... 5

Prentisiaethau ....... 6

Rhaglen Sgiliau Hyblyg ....... 7

Sgiliau Digidol ....... 8

Medr ....... 8

Gyrfaoedd ....... 8

Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ....... 10

Data cyflogwyr yng Nghymru ....... 11

# 1. Cyflwyniad

**1.** Nod polisïau sgiliau yw mynd i'r afael â sefyllfaoedd lle nad yw sgiliau'r gweithlu'n cyd-fynd ag anghenion cyflogwyr. Yn Llywodraeth Cymru, mae'r Is-adran Sgiliau yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau ôl-16, gan weithio'n agos gyda Medr, y Comisiwn newydd ar gyfer Addysg Drydyddol yng Nghymru, a sefydlwyd y llynedd.

**2.** Mae elfennau system sgiliau Cymru a drafodir yn y papur hwn yn cynnwys Sgiliau Sero Net, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, polisi sgiliau Prentisiaethau, Rhaglen Sgiliau Hyblyg, sgiliau digidol, Medr, Gyrfaoedd, Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a chyd-destun sgiliau'r DU.

**3.** Mae dimensiwn DU gyfan i bolisi sgiliau a bydd y papur yn ymdrin â'r rhyngwyneb â Llywodraeth y DU a gwledydd datganoledig eraill. Bydd aliniad Llywodraeth Cymru â "Strategaeth Ddiwydiannol Fodern y DU", a gyhoeddwyd ar 23 Mehefin 2025, hefyd yn cael ei gynnwys.

# 2. Polisïau Sgiliau

## Sgiliau Sero Net

**4.** Mae llawer iawn o waith wedi'i wneud i gyflawni ein hymrwymiad i Sgiliau Sero Net. Rydym wedi gweithio gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid i barhau i fapio anghenion sectorau allweddol o ran sgiliau a'n helpu i ddeall cyflymder a maint y newid sydd ei angen i gefnogi Economi Werdd Cymru. Eleni, rydym yn defnyddio'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i gael dealltwriaeth 'ar lawr gwlad' o'r heriau a'r cyfleoedd gwyrdd ledled Cymru.

**5.** Rydym yn gweithio ar draws y Llywodraeth i ddatblygu llwybrau gyrfa sero net clir, o ehangu dysgu STEM mewn ysgolion i adolygu a mireinio fframweithiau cymwysterau sero net mewn addysg drydyddol a chefnogi busnesau yng Nghymru i uwchsgilio eu gweithlu presennol i esblygu tuag at bontio teg.

**6.** Rydym hefyd yn gweithio gyda Medr i archwilio cyfleoedd i wneud y system cymwysterau a sgiliau yn fwy hyblyg ac ystwyth i ymateb i'r heriau dynamig sy'n codi wrth gefnogi diwydiannau sero net fel rhan o'r pontio teg hwnnw.

**7.** Mae Medr wedi cyhoeddi ei gynllun strategol gydag ymrwymiadau clir i sicrhau'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl ar gyfer y dyfodol, gwella canlyniadau ôl-16 a hyrwyddo tegwch a chyfle cyfartal. Ar hyn o bryd, mae Medr yn cwblhau ei gynllun gweithredol a fydd yn rhoi mwy o fanylion ar ei gamau gweithredu cychwynnol.

**8.** Rydym wedi bod yn cynnal adolygiad Sgiliau Gwyrdd gyda rhanddeiliaid i ystyried pa welliannau y gellid eu gwneud i'r ffordd mae'r system sgiliau gwyrdd yn gweithredu yng Nghymru. Mae canlyniadau bord gron Weinidogol ar Fforwm Sgiliau yr Amgylchedd Adeiledig, yn gynharach yn y flwyddyn, hefyd wedi'u hymgorffori a bydd adroddiad terfynol gydag argymhellion y gellir eu gweithredu ar Sgiliau Gwyrdd yn cael ei ddarparu i Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog cyn diwedd tymor yr haf.

**9.** Mae gwaith wedi parhau i ddatblygu ein llwybrau Taith tuag at Gymhwysedd ar gyfer proffesiynau allweddol a nodwyd, a'n nod yw cael cyfres ohonynt yn barod i'w cyhoeddi dros yr haf. Mae'r llwybrau hyn yn cael eu datblygu mewn partneriaeth â diwydiant a byddant yn darparu canllaw clir i sgiliau gwyrddach a gofynion proffesiynol i fusnesau a gweithwyr.

**10.** Wrth edrych ymlaen, rydym yn datblygu rhwydweithiau o randdeiliaid i lywio maint a siâp Ecosystem Sgiliau Gwyrdd Cymru, gan gynnwys cyflogwyr, darparwyr

hyfforddiant, gweithwyr, pobl ifanc a chynrychiolwyr grwpiau nodweddion gwarchodedig. Byddwn yn gweithio gyda'n Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i ymgysylltu â chyflogwyr penodol a chyflawni gweithgarwch traws-sector penodol i gefnogi blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, sef Swyddi a Thwf Gwyrdd.

**11.** Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net cyn diwedd tymor y Senedd a byddwn hefyd yn ceisio gweithredu'n gyflym yr argymhellion penodol i'w rhoi ar waith a nodwyd ar Sgiliau Gwyrdd sy'n deillio o waith ar yr Adolygiad Tymor Byr o Sgiliau Gwyrdd dan arweiniad y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol.

## Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol

**12.** Sefydlwyd Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol un mlynedd ar ddeg yn ôl ac maent yn rhoi trosolwg strategol o'r holl faterion sy'n ymwneud â chyflogaeth a sgiliau ar draws pedwar rhanbarth Cymru. Mae ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i gryfhau'r Partneriaethau hyn.

**13.** Maent yn gweithio gyda'u byrddau dan arweiniad cyflogwyr a rhwydweithiau cyflogwyr i osod blaenoriaethau ar gyfer sgiliau a nodir mewn cynlluniau cyflogaeth a sgiliau. Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu cyhoeddi ar eu gwefannau a'u defnyddio gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid rhanbarthol i gynorthwyo eu prosesau cynllunio.

**14.** Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, gan nodi blaenoriaethau rhanbarthol sy'n llywio'r defnydd o gyllid sgiliau. Yn ogystal, maent yn gweithredu fel strwythurau sgiliau rhanbarthol i gefnogi'r gwaith o weithredu Bargeinion Twf a Bargeinion Dinesig sy'n cwmpasu materion sgiliau, gan gynnwys materion trawsffiniol lle mae systemau sgiliau'n wahanol.

**15.** Mae'r gyllideb ar gyfer Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol wedi'i chynnal ar yr un lefel â blynyddoedd blaenorol ar gyfer 2025-26, sef £290k fesul Partneriaeth y flwyddyn. Bydd gwaith Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn canolbwyntio mwy ar sgiliau gwyrdd yn ystod 2025-26, i gyd-fynd â blaenoriaeth y Cabinet o "Swyddi a Sgiliau Gwyrdd". Byddant yn gweithio gyda'u rhwydweithiau cyflogwyr i nodi anghenion sgiliau gwyrdd rhanbarthol a chenedlaethol, wedi'u llywio gan wybodaeth am y farchnad lafur. Byddant hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Medr i osod blaenoriaethau sgiliau gwyrdd ar gyfer darparu addysg bellach a phrentisiaethau.

**16.** Mae cyfarfodydd monitro bob pythefnos ar waith i fonitro'r gwaith o gyflwyno cynlluniau sgiliau gwyrdd newydd ar gyfer y flwyddyn ariannol hon i gyflawni blaenoriaeth Swyddi a Sgiliau Gwyrdd y Llywodraeth. Mae cynlluniau cyflogaeth a sgiliau Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol hefyd yn cael eu hadnewyddu ar gyfer 2025. Mae'r data sy'n sail i argymhellion sgiliau rhanbarthol yn cael eu diweddaru.

## Prentisiaethau

**17.** Mae prentisiaethau yn offeryn hanfodol i adeiladu Cymru gryfach, decach a mwy cyfiawn sy'n addo llwyddiant economaidd i bawb. Mae prentisiaethau'n cefnogi ein hymdrech i godi lefelau sgiliau, gwella cynhyrchiant a chreu cymunedau mwy cydnerth. Maent ar gael ym mhob sector, boed hynny mewn arloesi digidol neu'r economi sylfaenol, mewn meysydd megis iechyd a gofal cymdeithasol, gofal plant a thai. Maent ar gael o Lefel 2 (sy'n cyfateb i lefel TGAU) ac yn cael eu hategu gan gymwysterau cadarn sy'n cynnig llwybr i lefel gradd i ddysgwyr.

**18.** Mae Llywodraeth Cymru'n ariannu 100% o gostau hyfforddi prentisiaid o unrhyw oedran gyda busnesau o unrhyw faint. Mae'r prentisiaid yn dilyn Fframwaith Prentisiaethau Cymru cymeradwy, megis mewn Ynni, Peirianneg neu Adeiladu, a rhaid iddynt fod yn gweithio yng Nghymru am 51% neu fwy o'u hamser. Mae cymhelliant i gyflogwyr recriwtio prentisiaid anabl, yn ogystal â Phrentisiaethau a Rennir â Chymorth.

**19.** Fel y mae'r Pwyllgor wedi ei archwilio o'r blaen, mae Ardoll Prentisiaethau Llywodraeth y DU yn gymwys i fusnesau perthnasol yng Nghymru yn seiliedig ar nifer y gweithwyr, ond nid yw'n gweithredu fel ffrwd ariannu benodol ar wahân ar gyfer Llywodraeth Cymru. Bydd angen i ni ystyried sut y gall trefniadau ar gyfer yr Ardoll Twf a Sgiliau newydd weithio orau gyda gofynion cyflogwyr Cymru.

**20.** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi prentisiaethau ledled Cymru, drwy ein polisïau addysg drydyddol a sgiliau. Ar gyfer 2025/26, mae Llywodraeth Cymru wedi cadw'r gyllideb prentisiaethau ar £144m.

**21.** Mae ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ehangu prentisiaethau gradd. Rydym wedi datblygu darpariaeth newydd ar gyfer y diwydiant rheilffyrdd ac, o fis Medi 2024, mae llwybrau prentisiaethau gradd adeiladu wedi bod ar gael mewn rheoli adeiladu, peirianneg sifil, mesur meintiau a thirfesur. Mae nifer y llwybrau digidol wedi'i ehangu hefyd. Mae unrhyw ehangu pellach wedi'i gyfyngu gan bwysau cyllidebol. Yng Nghymru, rydym wedi canolbwyntio prentisiaethau gradd ar sectorau twf megis digidol, peirianneg a gweithgynhyrchu lle mae

datblygiadau mewn arloesi yn debygol o gael effaith sylweddol a hirdymor ar dwf economaidd Cymru.

**22.** Yn ddiweddar, cyhoeddodd Medr ei gylch adolygu tair blynedd ar gyfer fframwaith prentisiaethau. Ar hyn o bryd, mae'r Comisiwn yn adolygu fframweithiau yn y sectorau creadigol, adeiladu a pheirianneg, gan weithio gyda rhanddeiliaid perthnasol, gan gynnwys Cymwysterau Cymru, i sicrhau bod cymwysterau o fewn llwybrau prentisiaethau yn diwallu anghenion dysgwyr, cyflogwyr ac economi Cymru.

## Rhaglen Sgiliau Hyblyg

**23.** Yn chwarter olaf Blwyddyn Ariannol 2024/2025, dyrannwyd cyllideb y Rhaglen Sgiliau Hyblyg yn llawn i Fusnesau Cymru (£1.3m). Ym mis Mai, lansiodd y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol y Rhaglen Sgiliau Hyblyg yn ffurfiol ar gyfer 2025/2026 gyda chyllideb uwch o £7.531m.

**24.** Lansiwyd ymgyrch farchnata bwrpasol y Rhaglen ym mis Mehefin 2025. Mae Pecyn Cymorth Rhanddeiliaid wedi'i ddrafftio ar gyfer darparwyr hyfforddiant, cyrff hyfforddi a chyflogwyr i wella'r ddealltwriaeth o'r Rhaglen a sut i fod yn rhan ohoni. Rydym hefyd wrthi ar hyn o bryd yn llunio cynllun i ddefnyddio 'opsiynau cyfathrebu dim cost' i ehangu ein negeseuon.

**25.** Rhwng 1 Ebrill ac 11 Mehefin, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru 67 o geisiadau am gyllid y Rhaglen Sgiliau Hyblyg ac ymrwymodd £1,330,722, gan gefnogi 4,284 o ymyriadau hyfforddi.

**26.** Mae cynlluniau marchnata, cyfathrebu ac ymgysylltu yn mynd rhagddynt yn dda er mwyn gallu gwneud defnydd llawn o'r gyllideb uwch sydd wedi'i dyrannu i'r Rhaglen ar gyfer 2025/2026. Bydd gweithgarwch Ymgysylltu â Chyflogwyr wedi'i Dargedu a Rheoli Perthnasoedd yn sail i'n dull gweithredu, ac rydym yn sicrhau ein bod yn rhan o weithgareddau trawslywodraethol gyda busnesau, gan gynnwys cymryd rhan mewn digwyddiadau mawr megis yr Uwchgynhadledd Buddsoddi yn y gaeaf.

## Sgiliau Digidol

**27.** Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr ar draws Llywodraeth Cymru i sicrhau bod Sgiliau Digidol yn gwneud cyfraniad allweddol at gyflawni'r Strategaeth Ddigidol i Gymru a'r Cynllun Gweithredu Seiber i Gymru.

**28.** Byddwn yn parhau i archwilio'n rhagweithiol pa gyfraniad y gall y Rhaglen Sgiliau Hyblyg wedi'i gwella ei wneud at uwchsgilio ein diwydiant Seiber ac AI a byddwn yn cyfrannu'n sylweddol at Wythnos Dechnoleg Cymru ym mis Tachwedd. Ar hyn o bryd, rydym yn archwilio ymgyrch gyfathrebu ar y cyd ar Sgiliau Digidol gyda'r Hyb Arloesedd Seiber.

## Medr

**29.** Mae swyddogion o'r Is-adran Sgiliau yn gweithio'n agos gyda Medr, ar draws meysydd megis Prentisiaethau, Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, Sgiliau Digidol, Sgiliau Sero Net, Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a Gwybodaeth am y Farchnad Lafur. Mae cyfarfodydd rheolaidd ar waith gyda Medr i sicrhau bod cyfeiriad polisi'n cael ei ddarparu, yn enwedig ynghylch blaenoriaeth “Swyddi a Thwf Gwyrdd” y Llywodraeth.

**30.** Mae sector Addysg Bellach Cymru yn gwneud cyfraniad hanfodol at ddarparu sgiliau i ddysgwyr o bob oedran. Mae colegau a darparwyr hyfforddiant annibynnol yn cynnig ystod o gyrsiau a chymwysterau sy'n cwmpasu gwahanol agweddau ar yrfa unigolyn, o addysg ôl-16 i uwchsgilio ac ailsgilio ar gyfer newid gyrfa. Mae llawer o'r cyrsiau wedi'u hariannu'n llawn ac ar gael am ddim fel rhan o drefniant ariannu Llywodraeth Cymru gyda cholegau.

**31.** Mae mwy a mwy o gyrsiau sy'n cynnwys agweddau cynaliadwyedd neu sy'n cyfrannu'n gynhenid at yrfaoedd sy'n gysylltiedig â sero net yn cael eu cynnig, o sgiliau technegol mewn peirianneg, adeiladu, i sgiliau trawsbynciol mewn arweinyddiaeth, llythrennedd digidol a chynaliadwyedd yn y gweithle.

## Gyrfaoedd

**32.** Gyrfa Cymru yw'r gwasanaeth cenedlaethol sy'n darparu cyngor, cyfarwyddyd a hyfforddiant yn ymwneud â gyrfaoedd i bob oedran.

**33.** Mae Gyrfa Cymru yn gweithio gydag ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig, Unedau Cyfeirio Disgyblion a cholegau ledled Cymru, gan gefnogi pobl ifanc i allu

cynllunio a rheoli eu gyrfaoedd yn fwy effeithiol mewn marchnad swyddi gymhleth sy'n newid drwy'r amser. Maent yn darparu gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd wedi'u teilwra i anghenion pob person ifanc a sesiynau grŵp i helpu dysgwyr i ddysgu mwy am eu dewisiadau gyrfa, deall sut y gall eu dewisiadau effeithio ar eu gyrfa yn y dyfodol a sut i gymryd eu camau nesaf.

**34.** Ers mis Medi 2024, mae Gyrfa Cymru wedi cynnig cyfweliad cyfarwyddyd gyrfaoedd i bob person ifanc cyn iddynt adael blwyddyn 11. Mae hyn yn rhoi cyfle i bobl ifanc fod yn ymwybodol o'u dewisiadau o ran llwybrau yn y dyfodol, gan eu galluogi i wneud dewis gwybodus yn y dyfodol. Erbyn diwedd mis Mai 2025, roedd Gyrfa Cymru wedi darparu'r cymorth hwn i dros 85% o'r garfan Blwyddyn 11 bresennol.

**35.** Mae Gyrfa Cymru hefyd yn darparu cymorth ac adnoddau i weithwyr addysg proffesiynol ac athrawon, gan eu cefnogi i ymwreiddio addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith (CWRE) ar draws y Cwricwlwm i Gymru. Mae Gyrfa Cymru yn gweithio gyda miloedd o fusnesau ledled Cymru i hwyluso dod ag ysgolion a chyflogwyr at ei gilydd gyda'r nod o hysbysu, ysbrydoli ac ysgogi pobl ifanc am eu cyfleoedd gyrfa. Mae gweithgareddau'n cynnwys cyflwyniadau gan gyflogwyr, modelau rôl, ymweliadau safle, diwrnodau 'Byd Gwaith', ffug gyfweliadau a ffeiriau gyrfaoedd.

**36.** Ers 2022/23, drwy brosiect adnewyddu a diwygio Llywodraeth Cymru, mae Gyrfa Cymru wedi cynnig cymorth i ysgolion a cholegau sefydlu a rheoli eu cymuned cyn-fyfyrwyr eu hunain, yn ogystal â lleoliadau profiad gwaith wedi'i deilwra (TWE) i ddysgwyr cyfnod allweddol 4 a oedd yn colli diddordeb yn eu hastudiaethau ac yn wynebu risg o ddod yn NEET.

**37.** Mae Cymru'n Gweithio, a lansiwyd ym mis Mai 2019, yn cael ei ddarparu gan Gyrfa Cymru. Trwy Cymru'n Gweithio mae Llywodraeth Cymru yn darparu gwasanaethau coetsio, cyfarwyddyd a chyngor gyrfaoedd a chyflogadwyedd personol, diduedd i'r rhai sy'n 16+ oed sy'n byw yng Nghymru, gan gynnwys y rhai o fewn yr ystad carchardai a'r rhai sy'n ceisio noddfa. Mae Cymru'n Gweithio yn atgyfeirio unigolion at raglenni cyflogadwyedd priodol gan gynnwys Twf Swyddi Cymru+, ReAct+, Cymunedau am Waith a Mwy a Hyfforddeiaethau; mae'r gwasanaeth hefyd yn cefnogi unigolion i gael gwaith, i fod yn hunangyflogedig a dilyn prentisiaethau. Ers ei sefydlu, mae Cymru'n Gweithio wedi cefnogi 200,000 o gwsmeriaid.

**38.** Mae gwefan Gyrfa Cymru yn cynnwys

- ystod o wybodaeth yn ymwneud â swyddi

- mae adnodd Dinas Gyrfaoedd yn helpu dysgwyr mewn lleoliadau cynradd i ddechrau archwilio byd gwaith a gyrfaoedd.

- tudalen swyddi'r dyfodol sy'n archwilio rhanbarthau a diwydiannau Cymru, fel y gall pobl ddysgu pa swyddi y gallent eu gwneud, nawr ac yn y dyfodol (https://gyrfacymru.llyw.cymru/swyddi-dyfodol-cymru/swyddi-mewn-amaethyddiaeth-a-thir).

- gwybodaeth ddaearyddol i bobl ifanc, fel y gallant weld, er enghraifft, lle mae mathau penodol o brentisiaethau'n cael eu cynnig ledled Cymru.

**39.** Mae gwefan Cymru'n Gweithio hefyd yn cynnwys bwletin swyddi y gall pobl danysgrifio iddo er mwyn gweld y swyddi gwag sydd ar gael ar hyn o bryd ledled Cymru.

## Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol

**40.** Mae Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (SGC) yn nodi'r wybodaeth, y sgiliau a'r cymwyseddau sy'n ofynnol ar gyfer galwedigaeth ac yn sail i ystod o gymwysterau prentisiaeth a chymwysterau galwedigaethol oedolion ledled y DU a thramor. Mae'r Strategaeth SGC ar gyfer 2022 a thu hwnt yn cefnogi'r cysyniad o ddysgu gydol oes drwy alluogi unigolion i ennill y sgiliau trosglwyddadwy mwyaf hanfodol i economi'r dyfodol. Mae SGC yn cefnogi cludadwyedd sgiliau a symudedd parhaus y gweithlu ar draws sectorau, rhanbarthau a gwledydd.

**41.** Maent yn ymatebol i newidiadau galwedigaethol a chymdeithasol; drwy ddadansoddi Gwybodaeth am y Farchnad Lafur (LMI), mae'r system SGC yn nodi galwedigaethau sy'n dod i'r amlwg, y rhai y mae galw amdanynt a’r rhai sydd ar drai, a newidiadau galwedigaethol sy'n digwydd oherwydd arferion gweithio, technolegau a deddfwriaeth newydd. Mae SGC yn sicrhau yr ymgynghorir â chyflogwyr o bob un o'r pedair gwlad yn y DU i sicrhau bod y sgiliau a'r cymwyseddau sy'n ofynnol ar gyfer swydd benodol yn gyson ac yn drosglwyddadwy, waeth ble mae'r swydd honno’n cael ei gwneud. Nid yw SGC yn canolbwyntio ar fusnesau mawr yn unig; maent yn mynd i'r afael ag anghenion sgiliau'r economi sylfaenol, yn ogystal â busnesau bach, gwledig a dwyieithog. Mae'r Grŵp Llywodraethu SGC tair gwlad yn comisiynu gwaith i sefydlu blaenoriaethau galwedigaethol sectorol, a fydd yn cynnwys rolau a gyflawnir mewn lleoliadau gwledig.

**42.** Mae SGC ar gael i gefnogi atebion hyfforddiant ac addysg ar gyfer sectorau gwledig allweddol megis twristiaeth a lletygarwch, amaethyddiaeth, ynni a bwyd

a diod. Mae SGC hefyd yn amlinellu'r cymwyseddau galwedigaethol sy'n ofynnol ar gyfer rolau crefftus a rolau heb sgiliau o fewn yr economi sylfaenol a gwasanaethau hanfodol eraill a ddefnyddir mewn ardaloedd gwledig.

**43.** Er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn ymgymryd â chymaint o ddysgu safon diwydiant â phosibl, mae'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a gomisiynwyd gan Lywodraethau yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban yn cael eu defnyddio'n eang i ddatblygu cymwysterau a bod yn sail i gynllunio'r gweithlu. Mae adroddiad ar yr astudiaeth thematig ar Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gwyrdd/Sero Net hefyd wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar ac mae bellach yn cael ei ystyried gan swyddogion.

**44.** Mae'r galw am SGC diwygiedig a newydd yn cael blaenoriaeth yn flynyddol. Mae adolygiadau'n sicrhau bod safonau'n parhau i fod yn addas i'r diben ac yn addasu i ddiwallu anghenion cyflogwyr a diwydiant ledled y DU, nawr ac yn y dyfodol.

## Data cyflogwyr yng Nghymru

**45.** Mae tystiolaeth yn dangos bod y mwyafrif o gyflogwyr yng Nghymru yn gallu cael gafael ar y sgiliau sydd eu hangen arnynt. Dangosodd Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2022 fod gan un o bob deg (10 y cant) o gyflogwr yng Nghymru swyddi gwag yr oeddent yn cael trafferth eu llenwi oherwydd prinder ymgeiswyr â'r sgiliau, y cymwysterau neu'r profiad gofynnol (swyddi gwag oherwydd prinder sgiliau). Yn gyffredinol, roedd 35 y cant o swyddi gwag yng Nghymru yn swyddi gwag oherwydd prinder sgiliau.

**46.** Dangosodd ffigurau ar swyddi gwag a swyddi gwag oherwydd prinder sgiliau gynnydd o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol, er y dylid ystyried hynny yng nghyd-destun y cynnydd mewn swyddi gwag a ddigwyddodd yn ystod y pandemig Covid-19, a oedd yn cyd-daro â'r gwaith maes ar gyfer Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2022 (Mehefin 2022 i Fawrth 2023). Dywedodd mwy nag wyth o bob deg (84 y cant) o gyflogwr sydd â swyddi gwag oherwydd prinder sgiliau eu bod wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r sefyllfa. Yr ymateb mwyaf cyffredin i swyddi gwag oherwydd prinder sgiliau oedd cynyddu gwariant ar hysbysebu a recriwtio (34 y cant).

**47.** O ran heriau sgiliau mewnol, roedd 14 y cant o gyflogwyr yn teimlo nad oedd o leiaf un aelod o staff yn gwbl hyfedr yn eu swydd (bwlch sgiliau). Roedd hyn yn gyson â 2019 (13 y cant). Roedd cyfran y gweithwyr yr ystyriwyd nad oeddent yn

gwbl hyfedr (dwysedd bwlch sgiliau) yn 2022 hefyd yn debyg i 2019 (4.1 y cant yn 2022 a 4.0 y cant yn 2019). Y rhesymau mwyaf cyffredin dros fylchau sgiliau oedd y ffaith bod staff yn newydd i'r rôl (70 y cant), ac nad oeddent ond wedi cwblhau rhan o'u hyfforddiant (61 y cant). Roedd wyth o bob deg (80 y cant) o gyflogwr wedi cymryd camau i wella hyfedredd neu sgiliau staff sydd â bylchau sgiliau. Yr ymatebion mwyaf cyffredin i fylchau sgiliau oedd cynyddu gweithgarwch hyfforddiant neu wariant ar hyfforddiant (60 y cant) a chynyddu goruchwyliaeth staff sydd â bylchau sgiliau (53 y cant).

**48.** Roedd chwech o bob deg (60 y cant) o gyflogwr yng Nghymru wedi ariannu neu drefnu hyfforddiant i'w staff dros y 12 mis cyn y cyfweliad, i lawr o'r 62 i 63 y cant a welwyd yn y cyfnod rhwng 2015 a 2019. Cafodd y gostyngiad hwn ei sbarduno gan y ffaith bod cyfran is o gyflogwyr yn darparu hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith (36 y cant yn 2022 o gymharu â 45 y cant yn 2019). Roedd cyfran y staff a hyfforddwyd hefyd wedi gostwng o 65 y cant yn 2019 i 63 y cant yn 2022.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Andrew RT Davies,
Cadeirydd
Economy, Trade and Rural Affairs Committee

3 Gorfennaf 2025

Anwyl Andrew,

Ym mis Mai 2025, cyflwynodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ei adroddiad ar Ddeallusrwydd Artiffisial ac Economi Cymru – A all androidau Cymru freuddwydio am ddefaid trydan? Mae'r adroddiad yn cynnwys 8 argymhelliad

Gweler ynghlwm ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hynny

Yr eiddoch yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymateb i Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig - Deallusrwydd Artiffisial ac Economi Cymru

Mehefin 2025

Ym mis Mai 2025, cyflwynodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ei adroddiad ar Ddeallusrwydd Artiffisial ac Economi Cymru – A all androidau Cymru freuddwydio am ddefaid trydan? Mae'r adroddiad yn cynnwys 8 argymhelliad a dim casgliadau. Dyma ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hynny.

# Cynnwys

Argymhelliad 1. .... 4
Argymhelliad 2. .... 4
Argymhelliad 3 .... 4
Argymhelliad 4. .... 5
Argymhelliad 5. .... 6
Argymhelliad 6 .... 7
Argymhelliad 7. .... 7
Argymhelliad 8. .... 8

# Cyflwyniad

Mae'r Strategaeth Ddigidol i Gymru yn nodi uchelgais genedlaethol ar gyfer mabwysiadu dull digidol ledled Cymru. Ei weledigaeth lefel uchel yw gwella bywydau pawb yng Nghymru drwy gydweithio, arloesi a sicrhau gwell gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r strategaeth yn cynnwys chwe chenhadaeth: gwasanaethau digidol, cynhwysiant digidol, sgiliau digidol, economi ddigidol, cysylltedd digidol, ac yn olaf, data a chydweithio. Yn bennaf yn dechnoleg agnostig, mae gweithgareddau thematig amrywiol yn ceisio mynd i'r afael ag ystod eang o agendâu digidol. Dim ond un o'r rhain yw Deallusrwydd Artiffisial ond mae'n un sy'n rhychwantu sawl un o'r cenadaethau.

Mae defnydd arloesol ac effeithiol o ddata, gan gynnwys Deallusrwydd Artiffisial, yn elfen graidd o'r Strategaeth Ddigidol i Gymru ac mae'n ein helpu i wella ein gwasanaethau cyhoeddus yn ogystal â thyfu economi Cymru. Rydym am ysbrydoli busnesau i fabwysiadu a chroesawu arloesedd digidol ac sy'n seiliedig ar ddata i ysgogi ffyniant economaidd, gwytnwch a chynaliadwyedd.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y risgiau sy'n ymwneud â defnyddio Deallusrwydd Artiffisial gan gynnwys y potensial ar gyfer rhagfarn yn y data a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau Deallusrwydd Artiffisial, tarfu ac effaith ar y farchnad lafur a phryderon ynghylch camwybodaeth. Dyna pam mae sicrhau bod technolegau Deallusrwydd Artiffisial yn cael eu defnyddio mewn ffyrdd cyfrifol, moesegol, cynhwysol a diogel yn hanfodol.

Mae'r llywodraeth hon, wrth gyflwyno'r Strategaeth Ddigidol i Gymru, yn gweithio mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid lluosog gan gynnwys, ymhlith eraill, Llywodraeth y DU, partneriaid ar draws gwahanol elfennau o'r sector preifat digidol a thechnoleg a sefydliadau academaidd i gael effaith gryf.

Dylanwad hanfodol ar yr agenda Deallusrwydd Artiffisial yn y DU yw Cynllun Gweithredu Cyfleoedd Deallusrwydd Artiffisial Llywodraeth y DU fel y cyhoeddwyd gan y Prif Weinidog ar 13 Ionawr 2025. Mae hyn yn ôl-ddyddio ymgynghoriad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r diwrnod dilynol o sesiynau tystiolaeth lafar ond mae'n cael ei gydnabod yn yr adroddiad.

Hoffwn ddiolch i aelodau Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig am eu hadroddiad ar Ddeallusrwydd Artiffisial a'r Economi. Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad isod.

# Ymateb i'r 8 Argymhelliad

## Argymhelliad 1.

**Mabwysiadu deallusrwydd artiffisial: goblygiadau i'r economi a busnesau.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynllun gweithredu sy'n nodi'r dull y bydd yn ei gymryd i wneud y mwyaf o fanteision posibl deallusrwydd artiffisial, gan gynnwys camau gweithredu penodol sy'n ymwneud â chefnogi busnesau a'r gweithlu, a datblygu seilwaith deallusrwydd artiffisial.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cynnal adolygiad cydgysylltiedig i fanteision, cyfleoedd a meysydd effaith dealltwriaeth artiffisial a'r Economi. Mae hyn wedi archwilio sawl blaenoriaeth gan gynnwys cefnogi busnesau, sgiliau a gofynion seilwaith. Bydd yr argymhellion ar gyfer camau gweithredu sy'n deillio o'r adolygiad hwn yn cael eu cyflwyno i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio yn ystod yr wythnosau nesaf i'w hystyried.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio law yn llaw â brandiau byd-eang sy'n buddsoddi biliynau o bunnoedd yng Nghymru i ddatblygu a thyfu seilwaith dealltwriaeth artiffisial ar ffurf Canolfan Ddata â mwy o gapasiti.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

## Argymhelliad 2.

**Mabwysiadu deallusrwydd artiffisial: goblygiadau i'r economi a busnesau.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa feysydd deallusrwydd artiffisial y mae'n credu bod gan Gymru fantais gystadleuol ynddynt, a sut y bydd yn cefnogi busnesau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn y meysydd arbenigol hyn i ddatblygu a thyfu.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Fel rhan o'r adolygiad uchod a'r gwaith cyfatebol wrth ddatblygu'r cysyniad a'r cynnig am Barth Twf Deallusrwydd Artiffisial, bydd argymhellion ar gyfer meithrin a datblygu busnesau newydd ac sy'n tyfu gyda chynhyrchion dealltwriaeth artiffisial arbenigol yn cael eu cyflwyno i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio i'w hystyried.

Goblygiadau Ariannol – Eto i'w nodi.

## Argymhelliad 3.

### Mabwysiadu deallusrwydd artiffisial: goblygiadau i'r economi a busnesau.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru adolygu pa gymorth sydd ar gael i gefnogi busnesau i fabwysiadu deallusrwydd artiffisial ac elwa ohono, a nodi ble mae bylchau'n bodoli. Yn sgil yr adolygiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r bylchau hyn.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n arwain ar weithgareddau sy'n gysylltiedig â Deallusrwydd Artiffisial a'r economi wedi bod yn gweithio ar draws portffolios i gefnogi'r gwaith o adolygu cynhyrchiant BBaChau. Bydd hyn yn arwain at argymhellion ar gyfer mecanweithiau i gefnogi addysg, hyfforddiant a mabwysiadu Deallusrwydd Artiffisial ehangach lle mae bylchau yn bodoli.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen a'r awydd gan fusnesau i gael gwybod yn well am gyfleoedd a heriau mabwysiadu Deallusrwydd Artiffisial ac mae'n gweithio tuag at ddatblygu atebion priodol gyda phartneriaid i lenwi'r bwlch hwn.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithio mewn partneriaeth â mentrau fel Canolfan Hartree a ariennir gan STFC, a ddarperir gan Brifysgol Caerdydd. Mae gweithgarwch ehangu a braenaru strategol sy'n ceisio ymestyn cyrhaeddiad gweithgareddau Hartree eisoes ar y gweill.

Goblygiadau Ariannol – Eto i'w nodi.

## Argymhelliad 4.

### Seilwaith Deallusrwydd Artiffisial

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu cefnogi unrhyw barthau twf deallusrwydd artiffisial a ddatblygir yng Nghymru, gan gynnwys sut y bydd yn helpu i fynd i'r afael â chanlyniadau posibl o ran mwy o ddefnydd o ynni a dŵr.

Ymateb: Derbyn

Ers i'r Prif Weinidog lansio'r cynllun gweithredu ar Gyfleoedd Deallusrwydd Artiffisial (13 Ionawr 2025), mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio'n agos gyda swyddogion yn yr Adran Wyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg (DSIT) sy'n rhedeg proses gynnig y Parth Twf Deallusrwydd Artiffisial (AIGZ) ac wedi cyflwyno cynnig dan arweiniad Llywodraeth Cymru gan gefnogi a chynghori partïon allanol gyda chynigion ychwanegol gan Gymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi partneru â charfan o sefydliadau digidol rhyngwladol a domestig o'r radd flaenaf yn y sector preifat a phartneriaid academaidd i ddatblygu a chyflwyno cynnig AIGZ.

Mae goblygiadau sy'n ymwneud â defnyddio ynni a dŵr yn gwbl oddrychol i ddyluniadau unigol canolfannau data. Dylid nodi bod y defnydd o ddŵr yn wahanol yn

sylweddol yn dibynnu ar ddyluniad unigol canolfannau data ac mae'r dyluniad mewn perthynas â datblygiadau newydd yng Nghymru yn defnyddio systemau oeri dŵr 'dolen gaeedig' a elwir yn ffurfiol yn systemau oeri adiabatig.

Er bod angen ynni sylweddol ar ganolfannau data, mae'r uwchraddio a'r buddsoddiad sy'n gysylltiedig â chyflenwi pŵer newydd angenrheidiol yn sicrhau seilwaith pŵer ychwanegol i Gymru o'r grid cenedlaethol na fyddai, heb y buddsoddiadau hyn mewn canolfannau data, yn cael ei gyflawni am flynyddoedd lawer os o gwbl.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

## Argymhelliad 5.

### Caffael

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellir ymgorffori'r syniad o gaffael deallusrwydd artiffisial yn ei chanllawiau sydd ar ddod ar elfennau caffael cymdeithasol gyfrifol Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus 2023.

Ymateb: Derbyn

Yn unol â'r ymateb i argymhelliad 1 uchod; mae adolygiad Llywodraeth Cymru i Ddeallusrwydd Artiffisial a'r Economi wedi cynnwys yn ei gwmpas yr angen i adolygu gweithgarwch caffael Deallusrwydd Artiffisial. Bydd hyn yn cynnwys argymhellion i'w hystyried i'w cynnwys yn y canllawiau sydd ar ddod ar elfennau caffael cymdeithasol cyfrifol Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus 2023.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

## Argymhelliad 6.

### Sgiliau a'r gweithlu

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru ddadansoddi pa feysydd, sectorau a grwpiau demograffig y mae dadleoli swyddi oherwydd deallusrwydd artiffisial fwyaf tebygol o gael effaith negyddol arnynt. Yn seiliedig ar ei chanfyddiadau, dylai weithio gyda phartneriaid i ddatblygu a thargedu cymorth wedi'i deilwra ar gyfer y grwpiau hyn.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn dadansoddi nifer o adroddiadau a chyhoeddiadau sy'n dadansoddi'n uniongyrchol ac yn rhoi mewnwelediad i'r sectorau a'r grwpiau demograffig y mae dadleoli swyddi oherwydd deallusrwydd artiffisial fwyaf tebygol o gael effaith negyddol arnynt. Bydd y dadansoddiad hwn yn cefnogi'r argymhellion a'r gweithgareddau partneriaeth arfaethedig a gyflwynwyd i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio fel rhan o weithgareddau adolygu ehangach Deallusrwydd Artiffisial a'r Economi.

Goblygiadau Ariannol – Eto i'w nodi.

## Argymhelliad 7.

### Sgiliau a'r gweithlu

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru asesu pa sgiliau sydd eu hangen ar y gweithlu i alluogi Cymru i wneud y mwyaf o'r manteision posibl o ddeallusrwydd artiffisial, ac adolygu i ba raddau y mae gan y gweithlu a gweithlu'r dyfodol y sgiliau hyn. Lle nodir bylchau, dylai flaenoriaethu gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu'r addysg a'r sgiliau angenrheidiol i fynd i'r afael â'r rhain

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Yn unol â'r ymateb i argymhelliad 1 uchod; mae adolygiad Llywodraeth Cymru i Ddeallusrwydd Artiffisial a'r Economi wedi cynnwys yn ei gwmpas yr angen am argymhellion ar gyfer camau gweithredu fel y maent yn ymwneud â'r agenda sgiliau sy'n ymwneud â Deallusrwydd Artiffisial. Er bod gweithgareddau eisoes ar y gweill mewn partneriaeth â'r byd academaidd yng Nghymru, bydd argymhellion ar gyfer camau gweithredu sy'n deillio o'r adolygiad hwn yn cael eu cyflwyno i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio i'w hystyried.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r gofynion yn y dyfodol am wyddonwyr data a setiau sgiliau gwyddor data sydd eu hangen i fodloni gofynion y dyfodol i wireddu manteision posibl Deallusrwydd Artiffisial a bydd yn gweithio gyda phartneriaid i nodi ymyriadau priodol.

Goblygiadau Ariannol – Eto i'w nodi.

## Argymhelliad 8.

### Sgiliau a'r gweithlu

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru adeiladu ar ei chanllawiau presennol mewn perthynas â deallusrwydd artiffisial a'r gweithle drwy:

- Weithio gyda phartneriaid i nodi pa ganllawiau pellach sydd eu hangen yn y sector cyhoeddus datganoledig mewn perthynas ag ansawdd swyddi a materion cydraddoldeb ynghylch deallusrwydd artiffisial a'r gweithle, a datblygu hyn.
- Ystyried pa ganllawiau deallusrwydd artiffisial a'r gweithle sydd eu hangen i gefnogi busnesau a gweithwyr y sector preifat, a gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu hyn.

Ymateb: Derbyn

Croesawodd Llywodraeth Cymru ganllawiau a gyhoeddwyd gan Gyngor Partneriaeth Gweithlu Cymru ar ddefnydd moesegol a chyfrifol o ddeallusrwydd artiffisial ar draws gweithleoedd y sector cyhoeddus, gan atgyfnerthu ein 'Ffordd Gymreig' unigryw o weithio mewn partneriaeth gymdeithasol. Yr egwyddorion yw gweithredu dull partneriaeth gymdeithasol, cadw'r angen am oruchwyliaeth a rhyngweithio dynol, sicrhau Gwaith Teg i bawb, meithrin gallu i reoli systemau Deallusrwydd Artiffisial, a diogelu swyddi.

Mae'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol hefyd yn ystyried y galw a'r cyflenwad o ran sgiliau Deallusrwydd Artiffisial ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat yng Nghymru.

Mae grŵp arweinyddiaeth Deallusrwydd Artiffisial ar draws y sector cyhoeddus yn gyrru'r gwaith trawsnewid gan ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial yn ein gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru. Ochr yn ochr â hyn, mae'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol yn cynnull Cymuned Ymarfer Awtomeiddio a Deallusrwydd Artiffisial i alluogi gweithwyr gwasanaethau cyhoeddus i rannu profiadau, yn ogystal â thrafod heriau a chyfleoedd, ar y defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Yn fwy eang ar sgiliau, rydym yn ailffocysu ein rhaglenni sgiliau gyda mwy o gyllid a hyblygrwydd i fynd i'r afael â bylchau sgiliau a chefnogi meysydd blaenoriaeth fel digidol, Deallusrwydd Artiffisial a sgiliau seiber.

Goblygiadau Ariannol – Eto i'w nodi.

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/1009/25

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
AndrewRT.Davies@senedd.wales

4 Gorffennaf 2025

Annwyl Andrew,

**Dal a Thrin Dofednod**

Ysgrifennaf yn dilyn fy llythyr ar 23 Mehefin i roi gwybod ichi am fy mwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU wneud rheoliadau i ddarparu eglurder i'r diwydiant dofednod, a'u cwmnïau dal cysylltiedig, ynghylch y gofynion cyfreithiol sy'n gymwys o ran dal dofednod yn ystod gweithrediadau cludo.

Rwyf bellach wedi rhoi fy nghydsyniad i Lywodraeth y DU wneud Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Cludo) (Diwygio) 2025 ("y Rheoliadau"). Rwyf wedi cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig sydd i'w weld yma: https://dogfennauaosodwyd.senedd.cymru/ws-ld17280-cy.pdf

Mae'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1/2005 ar ddiogelu anifeiliaid wrth gludo a gweithrediadau cysylltiedig ar eithrio ieir, a thyrcwn sy'n pwyso 5 kg a llai, o'r gwaharddiad ar godi anifeiliaid wrth eu coesau. Pan fydd ieir, a thyrcwn sy'n pwyso 5 kg a llai, yn cael eu dal wrth eu coesau, rhaid iddynt gael eu dal, eu codi a'u cario gyda'r ddwy goes (nid un goes). Ar gyfer tyrcwn sy'n pwyso mwy na 5 kg gwaherddir eu codi neu eu cario ar eu pen i lawr, boed hynny trwy ddal y coesau neu fel arall. Gosodwyd y Rheoliadau gerbron Senedd y DU, gan ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft, ar 1 Gorffennaf ac mae disgwyl iddynt ddod i rym ar 22 Gorffennaf 2025.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mike Hedges AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 5.3

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cif: PO HID 331 25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

SeneddDCC@senedd.cymru

7 Gorffennaf 2025

Annwyl Mike

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, roeddwn am roi gwybod ichi y cynhaliwyd cyfarfod arall o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar 23 Mehefin 2025.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Jim Fairlie MSP, Gweinidog Amaethyddiaeth a Chysylltedd Llywodraeth yr Alban, a oedd yng nghwmni Mairi Gougeon MSP, Ysgrifennydd y Cabinet dros Faterion Gwledig, Diwygio Tir ac Ynysoedd a Gillian Martin MSP, Ysgrifennydd y Cabinet dros Weithredu yn yr Hinsawdd ac Ynni hefyd ar gyfer Llywodraeth yr Alban. Roedd

Andrew Muir MLA, Gweinidog Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig a Caoimhe Archibald MLA, Gweinidog yr Economi yn bresennol ar gyfer Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Cynrychiolwyd Llywodraeth y DU gan Steve Reed AS, Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Mary Creagh AS, Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Natur, y Farwnes Sue Hayman, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, a Daniel Zeichner AS, y Gweinidog Gwladol dros Ddiogelwch Bwyd a Materion Gwledig.

Rwyf wedi cyhoeddi Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig sy'n crynhoi'r trafodaethau.

Mae'r cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar hyn o bryd ar gyfer 8 Medi.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn hefyd at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Neuadd y Sir / County Hall
Llandrindod Wells
Powys
LD1 5LG

Neuadd Cyngor Ceredigion
Penmorfa
Aberaeron
Ceredigion
SA46 0PA

Andrew R T Davies AS,
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig,
Senedd Cymru,
Bae Caerdydd.

7 Gorffennaf, 2025

Anfonwyd drwy e-bost yn unig:
*SeneddEconomi@senedd.cymru*

Annwyl Gadeirydd,


**Y Tirwedd o ran Cymorth Busnes**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 11eg o Fehefin, 2025 ynghylch yr uchod. Gweler isod yr ymatebion i'r cwestiynau a gafwyd yn eich llythyr.

- *Sut mae gweithgareddau'r Fargen Dwf yn cyd-fynd â'r dirwedd cymorth busnes ehangach?*
    - Cronfa gyfalaf yw'r Fargen Dwf sy'n cefnogi seilwaith economaidd ar raddfa fawr. Cyfres o gymorth yw cymorth busnes a ddarperir yn bennaf drwy Lywodraeth Cymru drwy ei gwasanaeth, Busnes Cymru.
    - Mae'r Fargen Dwf yn cefnogi prosiectau economaidd cyfalaf mewn sectorau allweddol. Er ei bod yn denu buddsoddiad gan y sector preifat ac yn ymgysylltu â busnesau, mae'n cydategu'n llwyr yr hyn a gynigir gan Busnes Cymru.
    - Mae timau'r swyddogion yn ymgysylltu'n rheolaidd ar yr agweddau hyn ac yn sicrhau bod ymwybyddiaeth barhaus o'r ddarpariaeth a'r cynlluniau.
- *Sut ydych chi'n sicrhau eich bod chi'n datblygu prosiectau neu gynlluniau ariannu sy'n ychwanegu at y ddarpariaeth cymorth busnes bresennol yn hytrach na'i dyblygu? Er enghraifft, sut mae cwmpas Cronfa Buddsoddi Eiddo Masnachol Canolbarth Cymru yn wahanol i'r benthyciadau eiddo masnachol a gynigir drwy Fanc Datblygu Cymru?*
    - Cafwyd sgyrsiau rhwng swyddogion wrth gynllunio'r cynigion. Datblygwyd Cronfa Buddsoddi Eiddo Masnachol Canolbarth Cymru ar sail tystiolaeth o'r galw a'r angen. Benthyciad yw'r hyn a gynigir gan y Banc Datblygu ond grant yw'r cynnyrch sydd gennym ni.

- *Pa gyfranogiad ydych chi'n disgwyl ei gael yn adolygiad Llywodraeth Cymru o gymorth i fusnesau a pha welliannau posibl yr hoffech eu gweld yn cael eu datblygu o ganlyniad i'r adolygiad?*
  - Rydym yn disgwyl y byddwn yn rhan o’r adolygiad ac yn cael cyfle i gynnig mewnbwn.
  - Hoffem weld mwy o feddwl yn cael ei roi i deilwra’r ddarpariaeth i ddiwallu anghenion a gofynion economi Canolbarth Cymru. Er bod rhaglenni a pholisi cenedlaethol wedi ymgymryd â dulliau penodol, mae enghraifft y Gronfa Buddsoddi Eiddo Masnachol yn dangos bod yna fylchau a heriau yng Nghanolbarth Cymru y mae angen mynd i'r afael â nhw.
  - Mae gennym nifer fawr o fusnesau micro/bach ynghyd â chymysgedd o fusnesau mwy o faint – ond dim llawer yn y canol.
  - Mae toriadau i gyllideb Busnes Cymru dros y blynyddoedd diwethaf (yn sgil colli arian yr Undeb Ewropeaidd) wedi arwain at leihau adnoddau ar lawr gwlad, a’n teimlad ni yn anecdotaidd yw bod hwn yn faes y dylem fod yn canolbwyntio arno ar y cyd â’r Llywodraeth.
  - Hoffem hefyd gael ein hystyried yn bartner strategol allweddol wrth i raglenni'r dyfodol gael eu dylunio. Os ydym yn llywio partneriaethau rhanbarthol yng Nghymru ar y cyd â phartneriaid traws-sector, byddai rhywbeth yn bod os nad ydym yn sicrhau bod y wybodaeth o'r holl ymdrechion hyn yn bwydo'n uniongyrchol i’r gwaith o gynllunio pethau at y dyfodol. Er enghraifft fan hyn, y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a'i grwpiau clwstwr. Mae’r sector preifat yn ymdrechu’n fawr i nodi a mynd i'r afael â rhwystrau a bylchau o ran sgiliau ac mae’r rhain yn cael dylanwad ar yr anghenion o ran cymorth busnes.

Yn gywir,



Y Cynghorydd Bryan Davies
Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion
Cyd-gadeirydd Bwrdd Tyfu
Canolbarth Cymru



Y Cynghorydd Jake Berriman
Arweinydd Cyngor Sir Powys
Cyd-gadeirydd Bwrdd Tyfu
Canolbarth Cymru

Eitem 5.5

**Elin Jones AS, Llywydd**
Senedd Cymru
**Elin Jones MS, Presiding Officer**
Welsh Parliament

Pwyllgorau'r Senedd
Dros e-bost

8 Gorffennaf 2025

**Ymgynghoriad: Adolygu Effeithiolrwydd Pwyllgorau yn y Chweched Senedd**

Annwyl Gadeirydd

Byddwch yn ymwybodol bod Fforwm y Cadeiryddion wrthi'n ystyried sut y mae pwyllgorau wedi gweithredu yn ystod y Chweched Senedd. Nod y gwaith hwn yw nodi a ellir gwella gweithdrefnau ac arferion pwyllgorau i sicrhau bod y swyddogaeth graffu mor effeithiol â phosibl, a defnyddio'r wybodaeth hon i lywio'r Seithfed Senedd. Mae'r Fforwm yn awyddus i ystyried materion diwylliannol ehangach ynghylch gweithrediad pwyllgorau'r Senedd, yn ogystal â materion ymarferol fel maint a swyddogaeth.

Mae Pwyllgor Senedd y Dyfodol hefyd wedi gwneud nifer o argymhellion i'r Fforwm ynghylch system y pwyllgorau ac ystyriaethau ar gyfer y Seithfed Senedd, ac mae'r rhain wedi'u hystyried yn y gwaith ar y mater hwn.

Mae'r Fforwm wedi lansio ymgynghoriad, a byddem yn ddiolchgar o gael barn pwyllgorau unigol ar y cwestiynau yn y ddogfen ymgynghori, ac unrhyw fyfyrdodau yr ydych yn eu hystyried yn berthnasol, erbyn **12 Medi 2025**.

Yn gywir

Elin Jones AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.



**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
llywydd@senedd.cymru
0300 200 7403

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
llywydd@senedd.wales
0300 200 7403

**Jack Sargeant AS/MS**
**Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol**
**Minister for Culture, Skills and Social Partnership**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref DC/JS/00471/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

SeneddLJC@senedd.cymru

9 Gorffennaf 2025

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol perthynas rhwng sefydliadau i roi gwybod ichi bydd y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gyfiawnder (IMG) yn cwrdd ar 16 Gorffennaf 2025.

Bydd hyn yn cael ei gadeirio gan Ysgrifennydd Gwladol Llywodraeth y DU dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon, yr Anrhydeddus Lisa Nandy AS. Byddaf yn cynrychioli Llywodraeth Cymru yn y cyfarfod rhithwir hwn.

Rwy'n rhagweld y bydd y cyfarfod yn cynnig cyfle i drafod datblygiadau diweddar yn y diwydiannau creadigol, gan gynnwys cyhoeddiad y Cynllun Sector Diwydiannau Creadigol, gweithgaredd rhyngwladol, ac ymrwymiad parhaus.

Rwyf wedi copïo'r llythyr hwn i Gadeiryddion Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, ac i Gadeiryddion y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, Y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Yn gywir,

Jack Sargeant

**Jack Sargeant AS/MS**
Minister for Culture, Skills and Social Partnership
Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jack.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Jack.Sargeant@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: PO/HIDCC/0274/25

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

SeneddEconomy@senedd.wales

9 Gorffennaf 2025

Annwyl Andrew,

Diolch am eich llythyr yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ar 15 Chwefror.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ystyried ers peth amser a fyddai dewisiadau eraill yn bosib yn lle cyfnodau caeedig, gan gynnwys defnyddio atebion technolegol. Fel rhan o hynny, rwyf hefyd wedi ymweld â'r Gelli Aur, i weld drosof fy hun y dechnoleg sy'n cael ei harchwilio yno. Cafodd y mater hwn ei ystyried fel rhan o'r adolygiad bob pedair blynedd o'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol.

Rwy'n ailadrodd fy ymrwymiad i gydweithio â rhanddeiliaid wrth ystyried y materion hyn yn fanylach.

Yn unol ag Argymhellion 5, 8 a 9 yr adolygiad, bydd rhagor o waith yn cael ei wneud i ystyried ymhellach ddewisiadau eraill yn lle'r cyfnodau caeedig a'r terfyn o 170. Rwy'n awyddus i archwilio pob trywydd, i sicrhau bod y rheoliadau mor ymarferol â phosibl. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn ystyried y berthynas rhwng y Rheoliadau a'r defnydd o dail organig wedi'i brosesu fel dewis yn lle gwrtaith wedi'i weithgynhyrchu.

Mae'r adolygiad 4 blynedd yn tynnu sylw at nifer o bryderon arwyddocaol ynglŷn â defnyddio dewis arall yn lle'r cyfnodau caeedig. Mae'r pryderon hynny'n cynnwys y potensial i golli mwy o faethynnau, yn enwedig nitrogen a ffosfforws, pan ddefnyddir tail da byw ar adeg o law trwm a phan na fydd y cnwd yn tyfu. Daeth yr adolygiad i'r casgliad nad oes digon o dystiolaeth ar hyn o bryd i ddangos bod yr angen am faethynnau ychwanegol ar gnydau yn ddigon i gyfiawnhau gwasgaru yn ystod y cyfnodau caeedig presennol, o'i gymharu â'r risgiau o lygredd a'r camau y gellid eu cymryd i leihau'r risgiau hynny.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae angen ystyried mwy na dim ond amodau'r pridd a'r tywydd wrth benderfynu a yw'n briodol gwasgaru gwrteithiau. Hefyd, rhaid ystyried a oes angen y maethynnau hynny ar y cnydau a'r risg o lygredd. Er efallai na fydd y cnydau’n tyfu rhyw lawer yn ystod y cyfnodau caeedig, rhaid ystyried hefyd y cyflenwad maethynnau sydd ar gael i'r cnwd ei godi o'r tail gafodd ei wasgaru yn ystod y tymor tyfu.

Fel sy'n wir am unrhyw ddewis amgen i'r terfyn o 170kg, problem y tynnwyd sylw ati pan oeddwn yn bresennol, oedd y bydd unrhyw reol newydd yn lle'r cyfnodau caeedig yn debygol o arwain at fwy o gymhlethdod, wrth benderfynu faint o faethynnau sydd eu hangen ar gnwd ac asesu'r risg o lygredd yn sgil eu gwasgaru. Fodd bynnag, dywedodd nifer o ffermwyr a chynrychiolwyr amaethyddol yn ystod yr adolygiad bod cymhlethdod unrhyw reoliadau'n destun gofid mawr iddynt.

Fel ymateb i'r pryderon a godwyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor ynghylch y terfyn o 170kg, hoffwn fanteisio ar y cyfle i egluro, er y gall gofyn cnwd am nitrogen fod yn sylweddol fwy na 170kg, y dylai cynlluniau rheoli maethynnau wastad ystyried y maethynnau eraill a ddarperir gan y tail, yn enwedig ffosfforws. Mae'r gymhareb ffosfforws i nitrogen mewn tail da byw yn golygu y gall defnyddio dim ond tail da byw i ddiwallu angen y cnwd am nitrogen olygu bod llawer mwy nag sydd ei angen ar y cnwd o ffosfferws. Mae effaith y ffosfforws yn y pridd yn sgil gorwasgaru tail yn y gorffennol, yn rhwystr sylweddol i adfer ein hafonydd ACA. Mae'r terfyn o 170kg yn adlewyrchu'r risgiau hyn a'r rhai sy'n gysylltiedig â'r nitrogen a ryddheir gan y tail dros amser.

Mae'r pynciau a drafodir uchod yn tanlinellu pa mor anodd yw datblygu atebion amgen fyddai'n rhoi mwy hyblygrwydd i ffermwyr a diogelu ein hamgylchedd yr un pryd.

Hoffwn eich hysbysu hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £1.58m i CNC ar gyfer gorfodi'r Rheoliadau ym mlwyddyn ariannol 2025-26.

Gan obeithio bod hyn wedi bod yn ddefnyddiol ichi.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

**Ken Skates AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Cabinet Secretary for Transport and North Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref:KS/PO/340/2025

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

10 Gorffennaf 2025

Annwyl Andrew

Diolch am eich llythyr dyddiedig 03 Gorffennaf ynghylch yr adroddiad ar y difrod i Borthladd Caergybi yn sgil storm a’r ffaith y bu’n rhaid cau’r porthladd.

Rydym mewn cysylltiad rheolaidd â Phorthladdoedd Stena Line ynghylch dyddiad ailagor Porthladd Caergybi. Mae Porthladd Caergybi yn endid masnachol, ac rydym wedi ein rhwymo gan yr wybodaeth y maent yn ei rhannu ynghylch y dyddiad ailagor. Rydym wedi siarad â Stena am yr oedi cyn ailagor y ddocfa ac yn deall pam na allai ailagor ar 1 Gorffennaf. Er y bydd y newyddion yma wedi siomi rhai, rhaid inni gydnabod bod gwasanaethau wedi gallu rhedeg ar lefelau arferol drwy gydol y cyfnod hwn, a bod yr oedi am gyfnod o bythefnos.

Rwy'n edrych ymlaen at weld y porthladd yn ailagor yn llawn.

Mewn perthynas â chwestiwn Hannah Blythyn AS ynghylch mesurau i ddiogelu’r gweithlu morwrol, rwy'n ymwybodol bod y Gweinidog dros Ddiwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol wedi ysgrifennu at y Pwyllgor ar 25 Mehefin yn cadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU ar y Bil Hawliau Cyflogaeth, sy'n paratoi'r ffordd ar gyfer Siarter Morwyr sy'n rhwymo'n gyfreithiol.

Yn gywir



**Ken Skates AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru
Cabinet Secretary for Transport and North Wales

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 9

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 10

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 11

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon